Rhif: WG29725

Llywodraeth Cymru
Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

# Meini prawf drafft ar gyfer achredu rhaglenni Addysg Gychwynnol Athrawon yng Nghymru a'r cynnig i Gyngor y Gweithlu Addysg achredu addysg gychwynnol athrawon

Dyddiad cyhoeddi: Ionawr 2017

OGL © Hawlfraint y Goron 2017 ISBN digidol 978 1 4734 8313 2

# Meini prawf drafft ar gyfer achredu rhaglenni Addysg Gychwynnol Athrawon yng Nghymru a'r cynnig i Gyngor y Gweithlu Addysg achredu addysg gychwynnol athrawon

| | |
|---|---|
| **Cynulleidfa** | Cyrff addysg sy'n ymwneud ag Addysg Gychwynnol Athrawon yng Nghymru, neu sydd â diddordeb yn y maes, gan gynnwys ysgolion, SAU, consortia addysg rhanbarthol, undebau athrawon, darparwyr hyfforddiant addysg, cyrff dyfarnu, ymarferwyr a sefydliadau ac elusennau cenedlaethol. |
| **Trosolwg** | Mae'r ddogfen hon yn gwahodd sylwadau ar y meini prawf ar gyfer achredu rhaglenni addysg gychwynnol i athrawon yng Nghymru a'r cynigion ar gyfer datblygu swyddogaethau a rôl Cyngor y Gweithlu Addysg. |
| **Camau i'w cymryd** | Dim – er gwybodaeth yn unig. |
| **Rhagor o wybodaeth** | Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:<br>Uned Strategaeth y Gweithlu<br>Y Gyfarwyddiaeth Addysg<br>Llywodraeth Cymru<br>Sarn Mynach<br>Cyffordd Llandudno<br>Conwy<br>LL31 9RZ<br>e-bost: ITEducationAddysgGA@wales.gsi.gov.uk<br>Ffôn: 0300 062 5484 |
| **Copïau ychwanegol** | Mae'r ddogfen hon ar gael o wefan Llywodraeth Cymru yn:<br>ymgyngoriadau.llyw.cymru/ |
| **Dogfennau cysylltiedig** | *Addysgu athrawon yfory* (2015)<br>http://gov.wales/topics/educationandskills/publications/wagreviews/teaching-tomorrows-teachers/?skip=1&lang=cy<br>*Adolygiad o Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon yng Nghymru* (2013)<br>http://gov.wales/topics/educationandskills/publications/wagreviews/review-of-initial-teacher-training-in-wales/?lang=cy |

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| **1. Cefndir** | **2** |
| **2. Methodoleg** | **3** |
| **3. Crynodeb o'r ymatebion a ddaeth i law** | **4** |
| **4. Negeseuon allweddol** | **5** |
| **5. Trosolwg o ymatebion i'r ymgynghoriad** | **8** |
| **6. Camau nesaf** | **29** |
| **Atodiad: Rhestr o ymatebwyr** | **30** |

# 1. Cefndir

Ym mis Mawrth 2014, penodwyd yr Athro John Furlong yn Gynghorydd Addysg Gychwynnol i Athrawon (AGA) Cymru. Gofynnwyd iddo ystyried a chwmpasu'r newidiadau sydd eu hangen i wella AGA yng Nghymru yn dilyn yr adolygiad o ansawdd a chysondeb hyfforddiant athrawon gan yr Athro Ralph Tabberer yn 2013.

Mae'r Athro Furlong wedi edrych yn fanwl ar sut mae darpariaeth hyfforddiant athrawon yn cael ei threfnu ar hyn o bryd yng Nghymru, y dystiolaeth sydd ar gael i gefnogi'r ddadl o blaid newid, a'r camau gweithredu sydd eu hangen yng Nghymru i gefnogi system AGA gyda'r gorau yn y byd sydd cystal â'r systemau gorau mewn rhannau eraill o'r DU a thu hwnt. Mae canfyddiadau ac argymhellion yr adolygiad hwn wedi'u cyflwyno yn adroddiad yr Athro Furlong – Addysgu Athrawon yfory.

Mae adroddiad yr Athro Furlong yn cynnwys nifer o opsiynau ar gyfer newid, gan gynnwys naw argymhelliad allweddol sy'n ceisio mynd i'r afael â gwendidau presennol AGA. Mae dau o'r naw argymhelliad yn cyfeirio at drefniadau achredu AGA. Y ddau argymhelliad penodol oedd:

- meini prawf drafft ar gyfer achredu rhaglenni Addysg Gychwynnol i Athrawon yng Nghymru;
- y cynnig y dylai Cyngor y Gweithlu Addysg achredu addysg gychwynnol i athrawon.

Yn ystod yr adolygiad hwn a'r cyfnod yn arwain at yr ymgynghoriad, ymgysylltwyd yn eang â rhanddeiliaid gan gynnwys arbenigwyr AGA o Gymru a thu hwnt. Mae'r ymgynghoriad hwn wedi gofyn am ragor o safbwyntiau ar y ddwy elfen benodol hyn o ddiwygio AGA sy'n ceisio gwella ansawdd a chysondeb darpariaeth AGA a chyflwyno dull gweithredu newydd ym maes addysg gychwynnol i athrawon.

## 2. Methodoleg

Roedd yr ymgynghoriad yn gofyn am adborth gan unigolion a sefydliadau sy'n ymwneud ag AGA neu sydd â diddordeb yn y maes.

Cymeradwyodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg gyfnod ymgynghori llai (saith wythnos) gan fod proses ymgysylltu eang â rhanddeiliaid wedi'i chwblhau eisoes. Felly, roedd yr ymgynghoriad yn agored am saith wythnos rhwng 26 Medi a 14 Tachwedd 2016.

Er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r ymgynghoriad, cafodd erthyglau newyddion eu cynnwys yng nghylchlythyrau addysg cyn-11 ac ôl-11 Dysg, a'u trydar ar sianel Addysg LIywodraeth Cymru. Hefyd, cafodd eitem newyddion ei bostio ar wefan Dysgu Cymru.

Gofynnwyd dau gwestiwn penodol (cwestiynau 8 a 9) er mwyn cydymffurfio â'r Safonau Cymraeg ym maes llunio polisïau.

Croesawyd ymatebion drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg a thrwy e-bost neu'r post. Derbyniodd pob ymatebydd e-bost yn cadarnhau bod ei sylwadau wedi'u derbyn.

# 3. Crynodeb o’r ymatebion a ddaeth i law

Derbyniwyd cyfanswm o 62 o ymatebion. Derbyniwyd ymatebion trwy gyfrwng y Gymraeg a’r Saesneg, a chyrhaeddodd pob un drwy e-bost. Derbyniwyd pedwar ymateb ychydig ar ôl dyddiad cau’r ymgynghoriad. Mae’r ymatebion hyn wedi’u cynnwys yn y dadansoddiad.

Er bod y mwyafrif wedi defnyddio’r ffurflen ymateb ar-lein, penderfynodd nifer fach o ymatebwyr ysgrifennu llythyr. O ganlyniad, nid yw pob cwestiwn wedi’i ateb gan bob ymatebydd. Fodd bynnag, mae’r dadansoddiad cryno hwn wedi cynnwys ymateb naratif yn llawn drwy gynnwys sylwadau yn yr adrannau priodol.

Roedd y rhan fwyaf o’r ymatebion a dderbyniwyd yn darparu llawer o gynnwys a naratif manwl ar gyfer pob maes ymateb. Mae sylw a phwys dyledus wedi’u rhoi i ymatebion gan unigolion a/neu sefydliadau sy’n cynrychioli grwpiau neu unigolion.

**Categorïau o ymatebwyr**

| | |
|---|---:|
| Addysg Uwch | 10 |
| Elusennau a chyrff cynrychioladol eraill | 9 |
| Unigolion | 9 |
| Cyrff proffesiynol | 8 |
| Undebau | 7 |
| Cyrff amgylcheddol | 5 |
| Anhysbys | 5 |
| Ysgolion | 4 |
| Consortia Rhanbarthol | 3 |
| Cyrff rhanbarthol | 2 |
| Cyfanswm | 62 |

Roedd y rhan fwyaf o’r ymatebwyr yn dod o Gymru.

Roedd nifer fach o ymatebwyr eisiau aros yn anhysbys, ac mae’r dymuniad hwn wedi’i barchu gydol yr adroddiad cryno hwn.

## 4. Negeseuon allweddol

Yn gyffredinol, roedd llawer o gefnogaeth i ddwy brif elfen y cynnig hwn. Mewn rhai achosion, roedd hyn yn amodol ar wneud mân newidiadau neu ar gais am ragor o wybodaeth. Fodd bynnag, roedd cefnogaeth i'r cysyniad cyffredinol.

### Rôl Cyngor y Gweithlu Addysg

Roedd llawer yn credu bod trosglwyddo cyfrifoldeb am achredu rhaglenni AGA i Gyngor y Gweithlu Addysg (CGA) a sefydlu Pwyllgor Achredu Addysg Athrawon yn gam rhesymegol. Yn ôl ymatebion Cynghorau Addysgu Iwerddon, yr Alban a Gogledd Iwerddon, mae hyn yn cyd-fynd â'r trefniadau statudol sydd wedi bod ar waith yn eu gwledydd nhw ers nifer o flynyddoedd.

Roedd cefnogaeth gref i'r syniad y dylai CGA ymestyn ei rôl a bod yn gyfrifol am agweddau'n ymwneud ag Addysg Bellach (AB). Awgrymodd rhai ymatebwyr y dylai hyfforddwyr ymarferwyr AGA gael eu rheoleiddio gan CGA hefyd. Hefyd, roedd rhywfaint o gefnogaeth i'r syniad y dylai CGA fod yn gyfrifol am safonau proffesiynol y proffesiwn sy'n cael ei reoleiddio ganddo.

Mewn egwyddor, roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr yn teimlo y dylai CGA fod â'r hawl i godi ffi ar gyfer ceisiadau achredu. Fodd bynnag, dylai'r ffi gael ei dalu gan y bartneriaeth yn hytrach na gan y Sefydliadau Addysg Uwch (SAU), ac ni ddylai unrhyw gostau ychwanegol a ysgwyddir gan CGA gael eu trosglwyddo i'r rhai sy'n cofrestru.

### Cynllunio capasiti a chynllunio'r gweithlu

Yn ôl sawl undeb a rhai ymatebwyr eraill, byddai angen newid sylweddol wrth ddyrannu adnoddau a threfnu'r gweithlu er mwyn gwireddu'r cynigion. Hefyd, byddai rôl estynedig ar gyfer CGA yn golygu bod angen ehangu capasiti a galluoedd presennol. Yn yr un modd, byddai angen i ysgolion ddatblygu capasiti ac arbenigedd i wneud swm sylweddol o waith.

Nodwyd y pwysigrwydd o sicrhau bod darlithwyr SAU yn meddu ar brofiad addysgu perthnasol a chyfoes o ansawdd uchel. Fodd bynnag, gallai cymhareb staff 15:1 gyfyngu ar rai SAU drwy ddileu'r hyblygrwydd i gynnal seminarau mwy o ran maint ac oherwydd arbedion maint eraill. Gallai'r gymhareb fod yn anymarferol i eraill.

Gofynnodd rhai ymatebwyr am gyfle a mynediad cyfartal i gyrsiau Cymraeg priodol ym mhob ardal. Bydd angen gwaith cynllunio gofalus i recriwtio myfyrwyr sy'n siarad Cymraeg a sicrhau bod staff mewn SAU ac ysgolion yn gallu darparu AGA drwy gyfrwng y Gymraeg yn ôl y gofyn.

### Partneriaeth a chydweithio

Roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr yn derbyn cysyniad cyffredinol y trefniadau partneriaeth. Nodwyd bod hyblygrwydd yn ffactor pwysig, a gofynnodd llawer o ymatebwyr am eglurhad pellach o rai elfennau. Nodwyd y byddai rheoli ac atebolrwydd da a chyllid digonol yn

bwysig. Gofynnwyd am rywfaint o eglurhad o rôl Estyn, Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) a'r consortia addysg rhanbarthol.

Cyfeiriodd sawl ymatebydd at y mathau o ysgolion a fydd yn gallu cymryd rhan yn y partneriaethau. Roedd rhai'n credu mai dim ond ysgolion categori 'gwyrdd' a oedd yn gymwys. Yn yr un modd, gofynnodd rhai ymatebwyr a allai ysgolion o'r tu allan i Gymru gymryd rhan. Cyfeiriodd eraill at gapasiti ysgolion llai a'r angen i sicrhau bod amrywiaeth eang o brofiadau dysgu ar gael i athrawon dan hyfforddiant.

## Cyfansoddiad y Pwyllgor Achredu Addysg Athrawon

Roedd hanner yr undebau athrawon a ymatebodd i'r ymgynghoriad yn anghytuno â'r cynigion i ehangu cylch gwaith CGA, yn rhannol am y rhesymau a nodwyd yn gynharach yn ymwneud â chapasiti a gallu. Hefyd, roeddent yn teimlo nad oedd CGA yn ei ffurf bresennol yn cynrychioli ei aelodau a bod rôl CCAUC braidd yn aneglur.

Roedd yr undebau athrawon eraill a ymatebodd naill ai'n cefnogi'r cynigion neu ddim yn eu gwrthwynebu. Fodd bynnag, roedd hyn yn dibynnu i raddau helaeth iawn ar sicrhau bod CGA yn aros yn annibynnol ac yn gredadwy. Pwysleisiwyd yn benodol bod angen i aelodau'r Pwyllgor Achredu Addysg Athrawon gynrychioli'r proffesiwn addysgu yn llawn. Yn benodol, byddai hyn yn golygu cynnwys gweithwyr addysgu proffesiynol a chynrychiolwyr yr undebau.

Cafwyd awgrymiadau eraill yn ymwneud ag aelodaeth, gan gynnwys cynrychiolwyr SAU, partneriaid ysgolion arweiniol, partneriaid AB, consortia rhanbarthol, yr Eglwys yng Nghymru, yr amgylchedd naturiol a phartneriaid cyfrwng Cymraeg. Nododd sawl ymatebydd nad yw'r broses ar gyfer gwneud penodiadau yn egluro sut y byddai sefydliadau yn cydweithio.

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno bod angen i'r Pwyllgor Achredu Addysg Athrawon fod yn gwbl gynrychioladol a chynhwysol. Er mwyn cyflawni hyn, roedd angen i'r pwyllgor allu addasu a bod yn hyblyg ac ymatebol. Dylid cyfethol arbenigwyr a chynrychiolwyr priodol i'r pwyllgor yn ôl yr angen.

## Meini prawf ar gyfer achredu

Er bod lleiafrif yr ymatebwyr yn cytuno bod safonau gofynnol yn bwysig i sicrhau cysondeb ledled y sector, nodwyd bod angen hyblygrwydd i sicrhau dulliau gweithredu arloesol a diogelu'r drefn ar gyfer y dyfodol. Fodd bynnag, roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr yn credu nad oedd y meini prawf arfaethedig yn cynnwys digon o fanylion am ddatblygu rhaglenni AGA. Roedd yr ymatebion hyn yn cyfeirio'n benodol at y maes arfaethedig sydd angen ei gryfhau neu ei egluro. Awgrymodd sawl ymatebydd y dylai'r meini prawf nodi gallu'r bartneriaeth i ddarparu gwasanaeth drwy gyfrwng y Gymraeg hefyd.

Nodwyd bod y broses achredu arfaethedig yn uchelgeisiol. Fodd bynnag, roedd y broses achredu bum mlynedd yn rhesymol yn ôl yr ymatebwyr.

## Gofynion mynediad

Roedd croeso cyffredinol i'r meini prawf mynediad a'r safonau dethol, a chynigiwyd rhai gwelliannau posibl. Ymhlith yr awgrymiadau a wnaed oedd cefnogi staff cymorth sy'n dymuno gwneud cais, sicrhau bod gweithiwr addysgu proffesiynol yn aelod o'r panel cyfweld, a gofyniad ar gyfer ffitrwydd corfforol a phrofiad blaenorol.

Cyfeiriodd sawl ymatebydd at y gofyniad ar gyfer TGAU gradd B mewn Saesneg/Cymraeg a Mathemateg. Roedd rhai'n cefnogi'r gofyniad tra bod nifer cyfartal yn ei wrthwynebu. Awgrymodd NASUWT Cymru fod angen canolbwyntio ar fod yn athro medrus. Hefyd, roedd rhai ymatebwyr eisiau eglurhad o'r cymwysterau cyfwerth a fydd yn cael eu derbyn. Yn yr un modd, gofynnwyd am eglurhad o natur drosglwyddadwy cymwysterau addysgu y tu allan i Gymru.

Nodwyd rhai anghysondebau yn ymwneud â gofynion mynediad. Ar hyn o bryd, mae unigolion sy'n dymuno gweithio mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg yn gorfod dangos lefel uchel o fedrusrwydd yn y Gymraeg. Fodd bynnag, nid oes unrhyw ofyniad medrusrwydd iaith ar gyfer y rhai sy'n bwriadu gweithio mewn ysgolion cyfrwng Saesneg.

## Yr Iaith Gymraeg

Yn ogystal â'r agweddau penodol a nodwyd eisoes, awgrymodd sawl ymatebydd y dylai'r meini prawf fod â chysylltiadau uniongyrchol ag uchelgais Llywodraeth Cymru i sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Nodwyd cysylltiadau iaith rhwng y gweithlu addysgu presennol a'r gymdeithas yn ehangach. Hefyd, nododd sawl ymatebydd fod darpariaeth AGA yn gallu cefnogi'r uchelgais ar gyfer 2050 ac y dylai niferoedd y rhai sy'n dilyn AGA trwy gyfrwng y Gymraeg ategu hyn.

## Cynnwys cyrsiau AGA

Pwysleisiodd ymatebwyr o'r Gymdeithas Gemeg Frenhinol a'r Sefydliad Ffiseg y dylai AGA fod yn ymarferol, yn enwedig mewn pynciau STEM (Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg), a bod angen iddi fod yn addas i'r oedran.

Roedd natur ymarferol AGA yn bwysig i'r sefydliadau amgylcheddol a ymatebodd i'r ymgynghoriad. Roedd cysylltiadau clir rhwng y manteision o sicrhau bod ymarferwyr yn gallu hwyluso dysgu yn yr awyr agored â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, dinasyddiaeth fyd-eang, iechyd a llesiant.

Oherwydd y Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) arfaethedig, awgrymodd sawl elusen y dylai Anghenion Dysgu Ychwanegol, dyslecsia/SpLD (Anawsterau Dysgu Penodol) ac ymwybyddiaeth o fyddardod fod yn rhan orfodol o AGA.

## 5. Trosolwg o ymatebion i'r ymgynghoriad

Mae'r adran hon yn crynhoi'r ymatebion a dderbyniwyd fesul cwestiwn. Mae'n bwysig nodi nad oedd pob ymatebydd wedi ateb pob cwestiwn ac mae'n bosibl na fydd canrannau yn adio i 100% oherwydd talgrynnu.

### Cwestiwn 1 – A ddylai Cyngor y Gweithlu Addysg gael cyfrifoldeb statudol am achredu'r holl raglenni addysg gychwynnol athrawon (AGA) yng Nghymru?

| | |
|---|---|
| Cytuno | 82% |
| Anghytuno | 11% |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 7% |
| Nifer yr ymatebion | 55 |

Cafwyd cefnogaeth gadarn iawn i'r cynnig y dylai CGA gael cyfrifoldeb am achredu rhaglenni AGA. Nododd sawl ymatebydd y byddai CGA yn cyflawni ac yn ymestyn nifer o rolau rheoleiddio gan gynnwys gweithredu fel ceidwad, ennill ymddiriedaeth y cyhoedd, sicrhau ansawdd, diogelu plant a sicrhau addasrwydd i ymarfer yn erbyn y safonau. Nodwyd bod CGA eisoes wedi dangos ei fod yn gallu cyflawni amrywiaeth eang o ddyletswyddau i safon uchel, a byddai'r cyfrifoldeb ychwanegol hwn yn golygu bod CGA yn gweithredu yn yr un modd â sefydliadau rheoleiddio eraill.

- Mae hwn yn gyfrifoldeb cwbl briodol ar gyfer sefydliad proffesiynol. Dylai cymwysterau addysg gychwynnol i athrawon fod â dwy elfen, h.y. bod yn gymwysterau academaidd (darperir ar gyfer hyn gan Sefydliadau Addysg Uwch), a bod yn gymwysterau proffesiynol hefyd. Y sefydliad mwyaf priodol i ddyfarnu'r statws proffesiynol hwn yw sefydliad proffesiynol – sef Cyngor y Gweithlu Addysg yng Nghymru. Y Cyngor Addysgu Cyffredinol sy'n gwneud hyn yng Ngogledd Iwerddon.
- Nid oes unrhyw sefydliad yng Nghymru ar hyn o bryd yn ystyried a yw rhaglenni yn briodol o safbwynt proffesiynol. Felly, rwy'n croesawu cynnig Llywodraeth Cymru i ddisodli'r broses bresennol o achredu darparwyr hyfforddiant â'r broses o achredu rhaglenni astudio AGA. Hefyd, rwy'n croesawu'r cynnig bod angen achredu pob rhaglen – dylai hyn gynnwys y Rhaglen Athrawon Graddedig (a Teach First, os yw'r rhaglen yn parhau). Gary Brace

Hefyd, roedd cefnogaeth gadarn i'r syniad o ymestyn rôl CGA i gynnwys Addysg Bellach (AB).

- Mae'n bwysig bod ymarferwyr addysgu ym mhob sector yn gallu manteisio ar yr un addysg gychwynnol ragorol er mwyn sicrhau safonau ymarfer proffesiynol uchel yn gyson ledled y sector addysg. Anhysbys.
- Dylai LLC, fodd bynnag, ystyried ymestyn y cyfrifoldeb i gynnwys Addysg Bellach fel bod y proffesiwn yn cael ei gynnal a'i gefnogi mewn modd mwy holistaidd, gan fod y dadleuon dros weithredu yn y modd hwn i godi safonau ymarfer athrawon yr un mor berthnasol i ddarlithwyr addysg bellach. Awgrymir y byddai'n fuddiol i wneud hyn yn gynt yn hytrach na hwyrach. Richard Parry Jones

- Hefyd, gan fod y cyfrifoldeb am gofrestru a rheoleiddio proffesiynol wedi'i ymestyn i chwe grŵp arall o dan gylch gwaith Cyngor y Gweithlu Addysg, mae'n ymddangos yn ymestyniad rhesymegol i sicrhau trylwyredd drwy ymestyn cyfrifoldeb am achredu rhaglenni hyfforddi i grwpiau nad ydynt yn cynnwys athrawon. Ysgol Gynradd y Tyllgoed.
- Mae'r Brifysgol yn credu bod rôl CGA yn allweddol i ddatblygu AGA yng Nghymru, ac y dylai wasanaethu'r sectorau gorfodol ac ôl-orfodol. Mae'r Brifysgol yn credu bod rôl CGA yn hanfodol i barhau i ganolbwyntio ar ddarpariaeth AGA sy'n seiliedig ac yn canolbwyntio ar ymchwil yng Nghymru, hynny ym mhob grŵp oedran. Prifysgol Glyndŵr Wrecsam.
- Mae'n rhaid i unrhyw gymhwyster AGA newydd weddu i'r gweithlu Addysg Bellach presennol a chydnabod y gwahaniaeth rhwng addysgu pynciau mewn ysgolion ac addysgu pynciau yn y sector Addysg Bellach. Mae AGA yn gysylltiedig â safonau proffesiynol mewn ysgolion a sefydliadau AB. Mae angen datblygu safonau proffesiynol priodol ar gyfer y proffesiwn addysgu a'r proffesiwn AB, ac ni ddylid eu cyfyngu i addysg *gychwynnol* i athrawon. ColegauCymru.

O safbwynt addysgu AGA, awgrymodd rhai ymatebwyr ei bod yn bwysig sicrhau bod yr hyfforddwyr eu hunain yn cael eu rheoleiddio i ryw raddau hefyd.

- Dylai hyfforddwyr AGA weithio tuag at ddatblygu gwybodaeth ac arbenigedd pwnc digonol i fod yn gymwys ar gyfer statws siartredig yn y pwnc/pynciau sy'n berthnasol i'w rôl. Byddai hyn yn sicrhau bod ganddynt sylfaen fwy cadarn i ddarparu hyfforddiant i athrawon yn eu pwnc arbenigol. Y Sefydliad Ffiseg
- Yn yr Alban, mae'n rhaid i bob darlithydd sy'n cyflwyno rhaglenni AGA gofrestru gyda Chyngor Addysgu Cyffredinol yr Alban. Cyngor Addysgu Cyffredinol yr Alban.

Nodwyd yr angen i sicrhau bod gweithlu ac adnoddau digonol ar gael i CGA ymgymryd â'r rôl, a bod y gallu ganddo i ddatblygu capasiti a galluoedd ychwanegol. Roedd sawl ymatebydd yn croesawu'r cynigion, ond roeddent yn awyddus i gael eglurhad pellach o rai meysydd.

- Rydym yn croesawu'r penderfyniad hwn yn gyffredinol, ond rydym yn nodi nad oes unrhyw wybodaeth ar hyn o bryd am gyfansoddiad arfaethedig y Bwrdd. Hefyd, nid yw'r meini prawf drafft yn cynnwys cyfiawnhad â chymhelliant llawn dros beidio â mabwysiadu'r argymhelliad yn ei ffurf wreiddiol. Byddai'r Brifysgol yn hoffi teimlo'n hyderus bod y modelau arfaethedig yn fforddiadwy, a byddai'n hoffi gwybod mwy am y posibilrwydd o godi ardoll ar gyfer ceisiadau SAU. Prifysgol De Cymru.
- Byddai'n fanteisiol egluro sut y gellid rheoli'r broses o achredu rhaglenni gwahanol mewn ffordd holistaidd er mwyn lleihau baich, yn enwedig os yw sefydliad yn cynnal nifer o raglenni gwahanol. Er ein bod yn credu y dylai CCAUC barhau i allu ariannu darpariaeth addysg uwch, dylai'r sefydliad sy'n gyfrifol am achredu darpariaeth AGA fynd ati i ddyrannu adnoddau ar gyfer darpariaeth. CCAUC
- Gan mai CGA a fydd yn cymeradwyo ymgeiswyr ar gyfer y proffesiwn yn y pen draw, mae'n gwneud synnwyr iddo achredu'r rhaglenni hefyd. Fodd bynnag, nid yw CGA yn sefydliad sy'n cynrychioli'r maes Addysg Uwch. Gan mai darparwyr AU a fydd yn darparu'r cyrsiau achrededig (sy'n gyrsiau addysg oedolion), mae'n ymddangos yn anghyson nad yw sefydliad sy'n gorchwylio addysg a hyfforddiant ôl-16 yn gyfrifol am y broses achredu. Undeb Prifysgolion a Cholegau

Roedd nifer fach o ymatebwyr yn anghytuno â'r cynnig. Nododd un ymatebydd fod y syniad yn briodol, ond nododd hefyd fod CGA wedi ehangu ei gylch gwaith yn ddiweddar, ac nad yw ei effeithiolrwydd wedi'i asesu eto. Roedd eraill yn credu nad oedd CGA yn ei ffurf bresennol yn briodol, ac nid oedd yn glir wrth ddarllen yr adroddiad sut y byddai ansawdd darpariaeth yn gwella drwy roi cyfrifoldeb am achredu i CGA.

- Yn wahanol i CGA, mae'r GTCS wedi'i hen sefydlu, mae'n gymharol uchel ei barch ledled y proffesiwn addysgu ac ymysg y cyhoedd, ac mae ei gylch gwaith rheoleiddio wedi'i ddiffinio'n glir. Nid yw'r Undeb yn credu bod modd cymharu sefyllfa CGA â sefyllfa'r GTCS. NASUWT Cymru
- Nid yw CGA yn gynrychioladol. Ni ddylid rhoi rhagor o gyfrifoldebau i CGA heb newid ei gyfansoddiad i gynnwys cynrychiolwyr etholedig o bob un o'r undebau addysg. ATL Cymru
- Ym marn UCAC, o brofiad ein haelodau, nid ydynt yn gyffredinol yn canfod CGA fel "llais" y proffesiwn. Nodir yn y ddogfen ymgynghorol y bydd dal rôl gan y CCAUC. Beth fydd natur y berthynas rhwng y CGA a CCAUC? Os bydd gan y ddau gorff rôl o ran darparu AGA, bydd rhaid bod yn hollol eglur a thryloyw ynglŷn â'u perthynas. UCAC

## Cwestiwn 2 – A ddylai Cyngor y Gweithlu Addysg sefydlu Pwyllgor Achredu Addysg Gychwynnol i Athrawon?

| | |
|---|---|
| Cytuno | 81% |
| Anghytuno | 8% |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 11% |
| Nifer yr ymatebion | 53 |

Yn gyffredinol, roedd yr ymatebwyr yn credu bod y cysyniad o sefydlu pwyllgor fel rhan o CGA yn briodol. Roedd Cyngor Addysgu Iwerddon yn credu bod angen model hyblyg fel bod CGA yn gallu dysgu a gwella. Hefyd, pwysleisiodd fod angen arbenigedd priodol er mwyn cynorthwyo i adolygu rhaglenni gwahanol, ac na fyddai gan un pwyllgor neu weithgor yr holl arbenigedd gofynnol i gynnal pob adolygiad.

- Mae rheoleiddwyr wedi defnyddio'r model hwn yn llwyddiannus. Mae'r pwyllgorau hyn yn cael eu cynorthwyo gan Baneli yn aml, sy'n gallu cyfarfod yn amlach i fynd i'r afael â materion yn ymwneud ag achredu. Dylai'r pwyllgor gynnwys cynrychiolwyr lleyg er mwyn sicrhau bod buddiannau'r cyhoedd yn cael eu hystyried yn ddigonol. Sheila Drayton
- Byddai'r cynnig hwn yn gyson ac yn debyg i'r sefyllfa yn y Alban, lle mae Pwyllgor Addysg y Cyngor Addysgu yn dirprwyo'r gwaith o graffu ar raglenni i Baneli Achredu. Mae pob Panel yn cynnwys isafswm o bum aelod fel arfer, ac mae o leiaf dau ohonynt yn dod o'r tu allan i'r Cyngor. Mae maint y Panel yn amrywio yn ôl nifer y rhaglenni sydd i'w hachredu, nifer y myfyrwyr sy'n dilyn y rhaglenni a pha mor gymhleth yw'r ddarpariaeth. Caiff cyfarfodydd Panel eu cadeirio gan Gynullyddion Panel sy'n cael eu penodi o blith aelodau'r Pwyllgor. Mae'r aelodau allanol yn dod o'r gymuned addysgol yn gyffredinol, gan gynnwys cynrychiolwyr o'r sector addysg

uwch ac, os yw'n briodol i'r rhaglen, cynrychiolwyr o awdurdodau lleol a/neu ysgolion neu'r sector coleg. Dylid nodi y bydd angen gofyn am gyngor arbenigol o bosibl ar agweddau penodol ar y rhaglen/rhaglenni. Cyngor Addysgu Cyffredinol yr Alban

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn credu bod aelodaeth y pwyllgor yn ffactor pwysig wrth sicrhau proses adolygu ac achredu effeithiol, effeithlon a chadarn. Dylai'r Pwyllgor Achredu Addysg Athrawon gynrychioli'r rhanddeiliaid gwahanol perthnasol a sicrhau ei fod yn manteisio ar arbenigedd a phrofiad cyfunol y rhai sydd eisoes yn ymwneud â'r maes AGA. Cafwyd sawl awgrym ar gyfer aelodau posibl a chynigion i gynorthwyo, gan gynnwys unigolion ag arbenigedd penodol, rhanddeiliaid a sefydliadau sy'n cynrychioli eraill.

- Unwaith eto, nid ydym yn anghytuno â'r cynnig hwn, ond rydym yn pwysleisio bod angen sicrhau bod y pwyllgor yn cynnwys unigolion sydd ag arbenigedd yn y maes, yn enwedig athrawon sy'n ymarfer ar hyn o bryd. NUT Cymru
- Dylai prifysgolion gael eu cynrychioli ar bwyllgor o'r fath gan academyddion sydd ag arbenigedd a phrofiad perthnasol ac sy'n gysylltiedig â chyrsiau sydd o ansawdd da yn ôl yr arolygiaeth. Anhysbys
- Dylid ystyried sicrhau bod y pwyllgor yn cynnwys unigolion lleyg sydd â diddordebau a sgiliau priodol, yn ogystal â phobl sydd â gwybodaeth ac arbenigedd ym maes AGA, yr amgylchedd dysgu ac arolygu. Steve Powell
- Yn ein barn ni, dylai trwch aelodau'r pwyllgor hwn berthyn i'r proffesiwn addysgu. Undeb Prifysgolion a Cholegau
- Dylai'r Pwyllgor Achredu Addysg Athrawon gynnwys o leiaf un aelod o Gyngor y Prifysgolion ac Ysgolion ar gyfer Addysgu Athrawon (USCET), fel corff cynrychioladol (nad yw'n gysylltiedig â sefydliad) partneriaethau addysg athrawon. USCET
- Mae'r Cyngor yn cynnwys pobl sydd wedi'u penodi gan Weinidogion ar hyn o bryd. Rydym yn credu'n gryf na ddylid ymestyn cylch gwaith CGA nes bod y Cyngor yn cynnwys aelodau sydd wedi'u hethol o'r undebau addysg. Rydym yn nodi bod yr ymgynghoriad hwn yn cyfeirio at Gyngor Addysgu Cyffredinol yr Alban yn enghraifft o ymarfer da. Rydym yn sylwi bod 19 aelod o fwrdd y Cyngor hwn wedi'u hethol ar hyn o bryd. Cymdeithas Athrawon a Darlithwyr Cymru
- Fel un o'r tri darparwr addysg a gynhelir yng Nghymru, ochr yn ochr â'r Wladwriaeth a'r Eglwys yng Nghymru, mae Gwasanaeth Addysg yr Eglwys Gatholig yn disgwyl gweld cynrychiolaeth gan ein sector. Gwasanaeth Addysg yr Eglwys Gatholig
- Byddai Dysgu yn y Gwir Fyd Cymru (RWLCP) yn hoffi gweld cynrychiolwyr o feysydd yr amgylchedd naturiol, cynaliadwyedd a dysgu y tu allan i'r ystafell ddosbarth ar y panel hwn. Dysgu yn y Gwir Fyd Cymru
- Mae'r holl faes sy'n cael ei ddisgrifio fel ADCDF ar hyn o bryd yn elfen hanfodol o addysg pobl ifanc (mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn adlewyrchu hyn), a dylai arbenigedd aelodau'r panel gynrychioli'r maes hwn. Canolfan y Dechnoleg Amgen
- Dylid ei gwneud yn gyfrifoldeb gorfodol fod pwyllgor o'r fath yn cynnwys arbenigeddau addas i warchod buddiannau'r sector cyfrwng Cymraeg gan gydnabod yn benodol anghenion darparu cyflenwad digonol o athrawon gyda'r sgiliau a phrofiad i ymateb i flaenoriaethau clodwiw ac uchelgeisiol LLC ar gyfer y maes. Richard Parry Jones
- Dylai – ac rydym yn awgrymu y bydd angen sicrhau bod pob partner yng Nghymru yn cael ei gynrychioli. Ymysg eraill, mae hyn yn cynnwys Llywodraeth Cymru, Rhanbarthau, Awdurdodau Lleol, ymarferwyr Ysgolion Partneriaeth ac Arweiniol, CGA, SAU a Phartneriaid AB. Gwasanaeth Cyflawni Addysg

Yn ogystal â gofyn am eglurder ynglŷn ag union natur ac aelodau'r pwyllgor, roedd yr ymatebwyr eisiau eglurder ynglŷn â sut y byddai aelodau'r pwyllgor yn cael eu penodi a sut y byddai sefydliadau yn cydweithio.

- Rydym yn cytuno â'r dull gweithredu hwn yn gyffredinol. Nid yw'r ddogfen ymgynghori yn nodi'n glir a fydd Gweinidogion Cymru neu CGA yn gyfrifol am y penodiadau. Teach First Cymru
- Fodd bynnag, mae angen rhagor o wybodaeth am yr aelodaeth, y cylch gwaith, y meini prawf ar gyfer gwerthuso rhaglenni AGA, y systemau gweithredu a'r prosesau achredu. Mae angen egluro rôl Estyn a'i gyfraniad posibl at waith CGA; mae angen ystyried rôl Estyn yn monitro ansawdd y ddarpariaeth a'i swyddogaeth reoleiddio er mwyn osgoi unrhyw wrthdaro buddiannau. Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant; Yr Athrofa
- Sut y bydd consortia rhanbarthol yn cael eu cynnwys yn y gwaith o ddewis ysgolion arweiniol AGA? A fydd cynrychiolwyr o gonsortia rhanbarthol yn aelodau o'r Pwyllgor Achredu Addysg Athrawon? Sut y bydd consortia rhanbarthol yn cyfrannu at waith sicrhau ansawdd rhaglenni AGA? Consortiwm Canolbarth y De

Roedd lleiafrif bach yn anghytuno â'r cynnig i sefydlu pwyllgor.

- Mae'r ymgynghoriad yn nodi bod y grŵp gorchwyl a gorffen wedi argymell sefydlu bwrdd. Nid ydym yn deall pam y mae hyn wedi'i newid i Bwyllgor. Mae'r arbenigedd sydd ei angen i achredu AGA yn wahanol i'r hyn sydd ei angen i fod yn aelod o CGA, ac mae'n annhebygol o fod â'r un arbenigedd perthnasol â bwrdd o arbenigwyr. Unwaith eto, ni allwn gefnogi'r cynnig i ymestyn cylch gwaith CGA heb fanteisio ar y cyfle hwn i sicrhau ei fod yn cynrychioli pawb. Cymdeithas Athrawon a Darlithwyr Cymru

## Cwestiwn 3 – Ydych chi'n cytuno bod y meini prawf ar gyfer achredu AGA yng Nghymru, fel y nodwyd yn Atodiad A, yn darparu digon o fanylion ar gyfer datblygu rhaglenni addysg gychwynnol i athrawon?

| | |
|---|---|
| Cytuno | 29% |
| Anghytuno | 38% |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 33% |
| Nifer yr ymatebion | 52 |

Dywedodd nifer fach o ymatebwyr fod y meini prawf arfaethedig yn gwbl ddigonol, ond rhybuddiodd lleiafrif o ymatebwyr rhag llunio meini prawf rhy ragnodol.

- Os rhywbeth, mae'r meini prawf yn rhy fanwl. Er ei bod yn bwysig sicrhau elfen o gysondeb ledled y sector AGA a nodi strwythur a chynnwys sylfaenol, mae'n bwysig sicrhau nad yw'r meini prawf yn amharu'n ormodol ar ddatblygu modelau partneriaeth newydd. Er enghraifft, mae'n rhaid i'r meini prawf ddarparu ar gyfer y canlynol: newidiadau parhaus i'r cwricwlwm ysgol; partneriaethau rhwng ysgolion a

phrifysgolion i benderfynu sut i rannu cyfrifoldebau gwahanol; datblygu rhaglenni hyfforddi arloesol (e.e. rhan-amser); a datblygiadau eraill sy'n dod i'r amlwg. Mae perygl y bydd y meini prawf yn eu ffurf bresennol yn rhy ragnodol a heb eu diogelu'n ddigonol at y dyfodol. USCET

Fodd bynnag, roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn credu nad oedd y meini prawf yn cynnwys digon o wybodaeth i ddatblygu rhaglenni AGA. Er nad oedd unrhyw ddadleuon ynglŷn â'r egwyddor gyffredinol, nodwyd bod y wybodaeth yn annigonol a bod pwyntiau penodol wedi'u hepgor. Nododd nifer o ymatebwyr fod unrhyw gyfeiriad at y Safonau Addysgu wedi'i hepgor.

- Rwy'n cytuno i raddau, ond nid yn gyfan gwbl. Nid yw'r "man terfynol", h.y. y safonau gofynnol ar gyfer ymarferwyr cymwys, wedi'u diffinio neu eu hamlinellu. Anhysbys

Ochr yn ochr â hyn, nododd ymatebwyr bwyntiau penodol a ddylai gael eu cynnwys yn y meini prawf yn eu barn nhw.

- Nid oes unrhyw gyfeiriad at anghenion myfyrwyr fel unigolion ym mharagraffau 13, 14, neu 15.  Sheila Drayton
- 1. Os yw 'ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol' yn parhau yn faes statudol yng Nghymru fel y mae yn Lloegr, oni ddylid ei gynnwys fel rhan o'r meini prawf hyn? 2. Onid yw hi'n amser erbyn hyn i nodi faint o oriau addysgu pynciol y dylid ei gynnwys mewn cyrsiau hyfforddi cynradd? Er enghraifft, mae cynllun ar droed gan NATRE (National Association of Teachers of RE) yn Lloegr i sicrhau bod Addysg Grefyddol yn cael 12 awr o addysgu mewn cyrsiau o'r fath. 3. Onid ellid disgwyl i ymgeiswyr am gyrsiau hyfforddiant ddilyn cyrsiau ychwanegol, os oes angen hynny, i wella eu gwybodaeth pwnc cyn dechrau cwrs hyfforddi, e.e. dilyn cwrs carlam dros wyliau'r haf? Eglwys Bresbyteraidd Cymru
- Yn gyntaf, er bod gofynion dysgu proffesiynol AGA mewn sectorau penodol wedi'u cynnwys yn glir, byddai'n fanteisiol sicrhau bod athrawon newydd gymhwyso wedi cael profiad ychwanegol mewn sectorau eraill (y Blynyddoedd Cynnar, Cynradd, Arbennig, Uwchradd), sy'n wahanol i'w dewis cyntaf. Yn ogystal, byddai profiad ar draws y cyfnodau (grwpiau oedran Meithrin, Cynradd ac Uwchradd) yn fanteisiol iawn i sicrhau bod athrawon newydd gymhwyso yn deall eu rôl yn llawn o safbwynt continwwm addysg ehangach plant a phobl ifanc. Un maes ychwanegol y dylid ei ystyried yw gallu ysgolion partneriaeth i ddiwallu anghenion myfyrwyr a pharhau i gyflawni eu dyletswydd graidd i ddarparu addysg o ansawdd uchel ar gyfer eu disgyblion. Yn ogystal, o ystyried y gofynion a'r strwythurau penodol yng Nghymru, ac ysgolion bach yn benodol, dylai profiad ysgol pob myfyriwr adlewyrchu'r amrywiaeth enfawr o leoliadau ledled y wlad (ysgolion bach, canolig, mawr, Cymraeg, dwyieithog). NAHT Cymru
- Byddem yn croesawu eglurhad ynglŷn ag a oes modd cynnig am y cwrs TAR 2 flynedd a'r cwrs BA Cynradd 4 blynedd gyda rhaglenni astudio pwnc o dan y meini prawf hyn, ac a oes modd i'r cyfnod 120 diwrnod yn yr ysgol a'r cyfnod 60 diwrnod o hyfforddiant mewn prifysgol/ysgol orgyffwrdd. Cymdeithas Addysg Wyddoniaeth
- Hoffem dderbyn eglurhad ynglŷn ag a yw achredu yn berthnasol i raglenni unigol neu i bartneriaethau yn eu cyfanrwydd. Os yw achredu yn berthnasol i raglenni unigol, nid oes digon o wybodaeth ynglŷn â sut y bydd hyn yn gweithio yn ymarferol. Prifysgol De Cymru
- Mae'n dda gennym weld bod mewnbynnau'r Rhaglen yn cynnwys adran ar y Ddeddf Cydraddoldeb. Mae'n hanfodol bod athrawon yn derbyn hyfforddiant digonol i ddeall effaith ehangach eu haddysgu ar benderfyniadau a dyheadau disgyblion yn y

dyfodol. Fodd bynnag, rydym yn credu bod modd cryfhau'r adran hon, gan ddisodli'r gair 'annog' a nodi ei bod yn 'ofynnol' i athrawon addysgu mewn ffordd nad yw'n gwahaniaethu rhwng disgyblion ac sy'n mynd i'r afael ag anghydraddoldebau allweddol. Chwarae Teg

- Fodd bynnag, nid yw'r meini prawf a restrir yn cynnwys unrhyw ddarpariaeth i sicrhau bod athrawon dan hyfforddiant yn datblygu'r sgiliau i fod yn gymwys ac yn hyderus yn yr awyr agored. Mae hyn yn hanfodol i wneud y cwricwla ADCDF, Bioleg, Daearyddiaeth a STEM yn gyffrous, ac mae'n fanteisiol iawn i lesiant corfforol a llesiant meddyliol disgyblion wrth ddefnyddio'r amgylchedd naturiol i addysgu amrywiaeth o bynciau. Cyfoeth Naturiol Cymru
- Mae'r meini prawf ar gyfer pennu'r canolfannau achrededig yn gynhwysfawr, ond rydym yn awgrymu bod cyfle yma i sicrhau bod yr iaith yn fwy canolog i'r broses. Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol
- Mae angen rhagor o fanylion i sicrhau bod pwysigrwydd dysgu yn yr awyr agored wedi'i nodi a bod modd darparu profiadau dysgu ymarferol sy'n seiliedig ar Dyfodol Llwyddiannus i safon uchel. Y Cyngor Astudiaethau Maes
- Mae Canolfan y Dechnoleg Amgen yn poeni am y diffyg cyfeirio at bwysigrwydd hanfodol addysg gynaliadwyedd (ADCDF). Canolfan y Dechnoleg Amgen
- Fodd bynnag, er nad oes gwrthwynebiad i'r dull gweithredu hwn mewn egwyddor, mae'r Undeb yn credu bod angen egluro sut y bydd yr ysgolion 'partneriaeth arweiniol' sy'n ymwneud â hyfforddiant yn cael eu nodi a'u cefnogi i fodloni'r disgwyliadau a nodir yn y meini prawf drafft. NASUWT Cymru
- Mae angen i bob SAU/partneriaeth cynnig llwybr cyfrwng Cymraeg. Hefyd, dylid nodi natur y llwybr, a'r gofynion o ran y meini prawf. Dylai fod modd dilyn y cwrs yn gyfan gwbl ac yn rhannol trwy gyfrwng y Gymraeg, gan gynnwys cyfrwng yr addysgu, cefnogaeth ychwanegol, y lleoliadau profiad dysgu a'r asesiadau. UCAC Cymru
- Mae angen i 5.2 (Atodiad Meini Prawf) restru'n benodol y dylai unrhyw raglen AGA a gaiff ei achredu ddangos sut mae'n paratoi'r athrawon dan hyfforddiant i weithio'n effeithiol mewn cyd-destun dwyieithog (Cymraeg a Saesneg). Ar hyn o bryd, nodir dan y pwynt bwled hwn: 'llythrennedd', 'rhifedd', 'llythrennedd digidol', 'cynhwysiant cymdeithasol' a 'chydweithio'. Er bod dwyieithrwydd yn rhan o 'llythrennedd' a 'chynhwysiant cymdeithasol', dylid ei enwi'n benodol er mwyn amlygu'r pwysigrwydd y mae Donaldson a Furlong yn ei roi i rôl athrawon yn y gwaith o ddatblygu Cymru. PCYDDS
- Pe bai'r meini prawf hyn yn cael eu cyflwyno i AGA ar gyfer athrawon dan hyfforddiant yn y sectorau AB, Dysgu Seiliedig ar Waith a Dysgu Oedolion yn y Gymuned, byddai problemau ychwanegol a gwahanol yn codi. Er enghraifft, byddai angen i bartneriaethau yn y sectorau hyn fod rhwng y sefydliad sy'n cyflwyno'r cymhwyster AGA. City & Guilds
- Os nad yw'r bartneriaeth yn endid cyfreithiol, mae angen egluro'r materion canlynol. Pwy sy'n 'berchen' ar y myfyriwr ac yn dyfarnu'r cymhwyster neu'n gwneud yr argymhelliad ar gyfer SAC? A yw'r ysgol neu'r SAU yn dyfarnu'r achrediad, neu a ydynt yn gwneud hynny ar y cyd? Pwy sy'n cadw data'r myfyriwr? Pwy fydd yn atebol am ddarparu AGA o ansawdd uchel? Os yw arolwg yn penderfynu bod y cwrs yn anfoddhaol, pwy sy'n gyfrifol yn y pen draw? A fydd arweinydd y cwrs yn gweithio yn yr ysgol neu'r brifysgol? Mae pwynt 14 o'r crynodeb gweithredol yn awgrymu bod y SAU yn gyfrifol am les myfyrwyr, sy'n awgrymu bod y myfyriwr yn 'perthyn' i'r SAU. Pwy sy'n derbyn y cyllid a phwy fydd yn atebol am ei wario? Beth sy'n digwydd os yw arolwg yn nodi bod perfformiad un o'r ysgolion yn y bartneriaeth yn 'foddhaol' neu'n waeth na hynny? Sut y byddai hyn yn effeithio ar y ddarpariaeth? A fydd cyllid ychwanegol ar gael ar gyfer yr amser wedi'i neilltuo sydd ei angen ar gyfer athrawon sy'n cefnogi myfyrwyr? A oes cyfyngiad i'r DPP ar gyfer athrawon y dylai'r

bartneriaeth ei gynnwys? Pryd y byddai codi tâl am ddeunyddiau/hyfforddiant fod yn dderbyniol? Mae'r pwynt hwn yn berthnasol i nifer o'r cwestiynau sy'n cael eu gofyn yn y ddogfen hon. Y Brifysgol Agored yng Nghymru

## Cwestiwn 4 – Ydych chi'n cytuno gyda'r rolau a'r cyfrifoldebau a gynigir ar gyfer ysgolion a phartneriaethau SAU (sefydliadau addysg uwch)?

| | |
|---|---:|
| Cytuno | 63% |
| Anghytuno | 7% |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 30% |
| Nifer yr ymatebion | 54 |

Roedd cyfran sylweddol yn cytuno'n gyffredinol gyda'r rolau a'r cyfrifoldebau a gynigir ar gyfer partneriaethau, ac nid oedd traean arall yn cytuno nac yn anghytuno. Cyfeiriodd y ddau grŵp at ddiffyg eglurdeb mewn rhai meysydd neu faterion yn ymwneud ag ailddyrannu rolau, cyfrifoldebau ac adnoddau. Hefyd, pwysleisiodd sawl un bod angen hyblygrwydd yn y partneriaethau.

- Yn gyffredinol, mae'r rhain yn ymgorffori'r egwyddor bod angen i AGA fanteisio ar yr arbenigedd mwyaf priodol i ddarparu'r mewnbwn a'r profiadau gofynnol ar gyfer athrawon dan hyfforddiant. Anhysbys
- Un o broblemau creu partneriaethau SAU yw ceisio osgoi'r sefyllfa lle mae sefydliadau AU yn brwydro am yr un ysgolion neu'n gorfod gosod hyfforddeion, oherwydd nifer yr hyfforddeion, mewn ysgolion nad ydynt cystal â rhai eraill. Eglwys Bresbyteraidd Cymru
- Nid yw'r cynigion yn nodi'n glir a ddylai'r trefniadau partneriaeth gynnwys ysgolion partneriaeth arweiniol yn unig, neu a fydd ysgolion partneriaeth eraill yn cael eu cynnwys hefyd. CCAUC
- Mae angen egluro nifer o bwyntiau ynglŷn â phwy sy'n 'berchen' ar y myfyrwyr a phwy sy'n atebol yn y pen draw am ansawdd y ddarpariaeth ac am wario'r cyllid. Y Brifysgol Agored yng Nghymru
- Mae cyfrifoldebau SAU a'u hysgolion partneriaeth wedi'u hamlinellu'n gymharol glir, ond dylai SAU fod â llawer mwy o ryddid i ddewis ysgolion partneriaeth. Mae rhywfaint o amwyster yn parhau ynglŷn â'r cysyniad o 'waith ymchwil' a 'staff AGA sy'n gwneud gwaith ymchwil'. Canolfan Addysg Athrawon Gogledd a Chanolbarth Cymru
- Mewn rhai ardaloedd o'r Gogledd-ddwyrain, mae nifer yr ysgolion gwyrdd yn gyfyngedig. Mae'n bosibl y bydd yn briodol ystyried dosbarthiadau lefel is os oes lefel hysbys o arbenigedd a phrofiad mewn cefnogi hyfforddeion AGA. Mae'n bosibl na fydd lleoliad daearyddol ysgolion arweiniol yn golygu eu bod yn gallu diwallu anghenion hyfforddeion mewn ysgolion gwledig bob amser. Prifysgol Glyndŵr Wrecsam

Yn ogystal â'r gofyniad hwn ar gyfer hyblygrwydd, roedd eraill yn pwysleisio'r ffaith y byddai angen newid sylweddol mewn dyrannu adnoddau a buddsoddi gan ysgolion. Byddai'n ofynnol i ysgolion ddatblygu gallu ac arbenigedd i wneud gwaith sylweddol.

- Drwy weithio mewn partneriaeth, bydd angen gweithdrefnau, protocolau a systemau newydd ar ysgolion a SAU er mwyn rheoli gwybodaeth a throsglwyddo data cyfrinachol mewn ffordd ddiogel. Dylai safonau ar gyfer y trefniadau hyn fod yn gyson ar draws partneriaethau. Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant; Yr Athrofa

Ychydig iawn a oedd yn anghytuno â chynigion y bartneriaeth. Fodd bynnag, roedd gwrthwynebiad y rhai a oedd yn anghytuno yn seiliedig ar y rôl newidiol hon ac ar bryderon ynglŷn â'r llwyth gwaith ychwanegol ar gyfer ysgolion.

- Mae gweithio mewn partneriaeth yn ei hun, yn anorfod yn creu gwaith ychwanegol. UCAC Cymru

## Cwestiwn 5 – Ydych chi'n cytuno â'r gofynion cyffredinol y mae'n rhaid i ddarparwyr achrededig eu bodloni ar gyfer holl raglenni astudio AGA?

| | |
|---|---|
| Cytuno | 71% |
| Anghytuno | 6% |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 24% |
| Nifer yr ymatebion | 51 |

Yn gyffredinol, roedd yr ymatebwyr yn croesawu'r cynigion ar gyfer gweithio mewn partneriaeth, ac roedd cytundeb cyffredinol sylweddol. Fodd bynnag, nodwyd bod angen gwneud rhagor o waith i egluro rhai agweddau penodol a mynd i'r afael â'r pryderon a godwyd. Roedd y pryderon hyn yn ymwneud â phwy sy'n gallu bod yn ddarparwr achrededig a sut i gyflawni tasgau gweithredol penodol.

- Os mai CGA ac nid darparwyr a fydd yn achredu rhaglenni AGA yn y dyfodol, a fydd hynny'n golygu bod modd ystyried darparwyr newydd, e.e. ysgolion arweiniol â hanes o ragoriaeth, yn 'ddarparwyr' hefyd? Consortiwm Canolbarth y De
- Mae'r cynigion yn pennu'r gofynion staffio ar gyfer SAU a swyddogaethau cyffredinol ysgolion 'Arweiniol'. Fodd bynnag, mae angen i'r gofynion fod yn ddigon hyblyg fel bod modd ystyried amrywiaeth o fodelau darpariaeth. Er enghraifft, mae'n bosibl y bydd angen i ysgolion gwledig weithio mewn clwstwr i fodloni gofynion cyffredinol y bartneriaeth. Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant; Yr Athrofa
- Mae Adran B (meini prawf ar gyfer achredu) yn datgan 'bydd gan ysgolion partneriaeth arweiniol ran amlwg wrth recriwtio athrawon dan hyfforddiant'. Mae recriwtio athrawon dan hyfforddiant yn wahanol i recriwtio athrawon, a bydd angen amser ac adnoddau ar ysgolion i sefydlu'r prosesau recriwtio. Yn Lloegr, mae llawer o ysgolion wedi cyflogi gweinyddwyr i gyflawni'r gorchwyl hwn (sy'n gallu cymryd llawer o amser oherwydd y gwiriadau gofynnol). A fydd cyllid ychwanegol ar gael fel bod ysgolion yn gallu ymdopi â'r llwyth gwaith hwn? Yn yr un modd, a fydd ysgolion yn derbyn cyllid ychwanegol i sicrhau bod ganddynt ddigon o amser ac adnoddau i gydweithio â SAU ar gynnwys a datblygiad cyrsiau? Yn ein barn ni, mae'r dyhead y dylai pob athro dan hyfforddiant gael y cyfle i ymgymryd ag o leiaf traean o'i brofiad

ysgol mewn ysgol sy'n cael ei chydnabod am ddarpariaeth o ansawdd uchel yn rhy isel. Y Brifysgol Agored yng Nghymru

- Mae'r NASUWT yn credu bod angen i'r trefniadau partneriaeth rhwng ysgolion a SAU gael eu rheoli'n dda er mwyn sicrhau bod y ddwy ochr yn gwneud cyfraniad effeithiol at ddarparu AGA o ansawdd uchel. Fodd bynnag, mae'r Undeb yn poeni nad yw'r meini prawf drafft yn nodi'n ddigon manwl sut i reoli'r cyfryw gysylltiadau ar lefel leol, ac nad ydynt yn nodi'n llawn y gofynion yn ymwneud â hyfforddi athrawon sy'n darparu AGA, yn enwedig wrth ddewis ymgeiswyr. O ganlyniad, mae'r NASUWT yn credu y dylai'r meini prawf drafft gael eu diwygio yn unol â hynny. NASUWT Cymru
- Bydd angen ystyried y perygl o ysgolion neu SAU yn wynebu heriau oherwydd safonau arolygu, a bydd angen cytuno ar amserlenni ar gyfer camau unioni os oes angen. Byddai rhywfaint o arweiniad ar y cytundebau sicrhau ansawdd sydd i'w sefydlu rhwng y partneriaid neu safonau ar gyfer proses asesu risg sy'n nodi risgiau adnabyddadwy ledled Cymru yn ddefnyddiol. Prifysgol Glyndŵr Wrecsam

Unwaith eto, nodwyd bod yr angen i staff fod â chymwysterau addas yn faes penodol lle mae angen datblygu'r gofynion cyffredinol.

- Ym marn GTC yr Alban, yn ogystal â nodi bod angen i staff addysgu fod â chymhwyster lefel uwch na lefel achredu'r cwrs y maent yn ei addysgu, dylent gofrestru gyda CGA hefyd. Cyngor Addysgu Cyffredinol yr Alban
- Mae NAHT Cymru yn credu'n benodol bod angen i ddarlithwyr a thiwtoriaid SAU fod â phrofiad addysgu perthnasol, diweddar o ansawdd uchel mewn ysgol. Os ydym yn disgwyl i'r gweithlu addysgu fod yn weithwyr proffesiynol myfyriol, effeithiol a datblygiadol, mae'n rhaid disgwyl i'r rhai sy'n cynorthwyo myfyrwyr i fod yn athrawon cymwys feddu ar ddealltwriaeth gyfoes, ymarferol a pherthnasol o'r un dull addysgeg. NAHT Cymru
- Rydym yn croesawu'r cynigion i staff HAGA ymwneud â gwaith ymchwil a'r gofyniad iddynt feddu ar gymhwyster (neu weithio tuag at gymhwyster) sy'n lefel yn uwch na'r cwrs sy'n cael ei addysgu. Bydd angen i'r gofynion cyffredinol fynd i'r afael â gallu'r partneriaethau i gefnogi darpariaeth rhaglenni Cymraeg a dwyieithog a'r nod o greu 1 miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant; Yr Athrofa

Nodwyd un mater yn benodol gan dri ymatebydd. Gallai'r gymhareb 15:1 rhwng myfyrwyr a staff gyfyngu ar hyblygrwydd partneriaethau a'r gallu i gyflwyno darpariaeth gynaliadwy.

- At ei gilydd, mae'r gofynion cyffredinol yn dda. Fodd bynnag, nid ydym yn deall y rhesymau am awgrymu cymhareb 15:1 rhwng myfyrwyr a staff ar gyfer SAU gan y byddai hyn yn herio'n ormodol cynaliadwyedd y ddarpariaeth a mynd yn groes i ddosbarthiad teg o adnoddau ledled y bartneriaeth. Rydym yn poeni na fydd yn ymarferol i rai SAU fodloni'r gofyniad hwn, ac rydym yn pryderu am swyddi aelodau'r Gymdeithas Addysg Wyddoniaeth os yw rhai SAU yn penderfynu rhoi'r gorau i ddarparu AGA. Hefyd, rydym yn poeni a fydd digon o SAU i sicrhau bod hyfforddiant athrawon ar gael ledled Cymru, yn enwedig mewn pynciau STEM ar gyfer pob oedran ysgol. Cymdeithas Addysg Wyddoniaeth
- Mae'r meini prawf sy'n nodi bod angen cymhareb staff SAU o 1 -15 yn hael, ac efallai bod angen nodi y bydd rhai aelodau staff yn cael eu lleoli yn yr ysgol neu mewn clwstwr o ysgolion. ERW

- Rwy’n cytuno yn gyffredinol, ond byddai dehongliad cul iawn o ystyr cymhareb 15:1 rhwng myfyrwyr a staff yn herio’n ormodol cynaliadwyedd y ddarpariaeth ac yn mynd yn groes i ddosbarthiad teg o adnoddau ledled y bartneriaeth. Er bod modd disgwyl yn rhesymol i SAU gynnal seminarau a grwpiau tiwtora â llai na 15 myfyriwr, mae angen hyblygrwydd i ddarparu ar gyfer darlithoedd cohort mawr ac arbedion maint eraill a fyddai’n golygu bod lefel gyffredinol y gymhareb yn debyg i gymhareb rhaglenni tebyg mewn prifysgolion eraill. Anhysbys

Yn gyffredinol, roedd yr ymatebwyr yn credu bod mewnbynnau rhaglenni yn glir. Codwyd nifer fach o bwyntiau penodol.

- Byddai’n well cyflwyno’r cynnwys ar gyfer astudiaethau craidd, astudiaethau proffesiynol ac astudiaethau pwnc fel canllawiau yn unig. Yn benodol, bydd dull y llwybrau seiliedig ar gyflogaeth o gyflwyno’r elfennau a nodir yn y ddogfen ymgynghori yn wahanol. Rydym yn tybio y bydd y gofynion ar gyfer astudiaethau pwnc TAR uwchradd yn cynnwys astudiaeth drylwyr o Feysydd Dysgu a Phrofiad ac elfennau cwricwlwm a sgiliau Bagloriaeth Cymru. Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant; Yr Athrofa
- Mae’r FSC yn cytuno â’r gofynion cyffredinol ond mae am weld dysgu awyr agored yn benodol yn cael ei gynnwys ym mhwynt bwled 6 ar dudalen 31, e.e. profiad mewn o leiaf ddau leoliad ysgol cyferbyniol, *gan gynnwys addysgu y tu allan i’r ystafell ddosbarth.* Field Studies Council
- Rhan yr Astudiaethau Craidd. Nodwyd eisoes y dylid cryfhau geiriad 5.5. pwynt 5. Bydd angen sicrhau bod yr iaith Gymraeg ac ymwybyddiaeth drwyadl o ddiwylliant Cymru yn rhan annatod o gynnig Astudiaethau Craidd pob SAU a phob Ysgol o fewn y Bartneriaeth. PCYDDS

Cyfeiriodd rhai ymatebwyr at faterion yn ymwneud ag amrywiaeth a chynhwysiant, gan bwysleisio’r angen am hyblygrwydd er mwyn ystyried modelau darpariaeth amrywiol. Cyfeiriodd y nifer fach o ymatebwyr a anghytunodd â’r cynnig at y gallu i weithio gydag ysgolion o bob math a nodi arferion gorau ym mhob lleoliad.

- Pe bai’r un gofynion yn cael eu cyflwyno ar gyfer athrawon dan hyfforddiant AGA yn y sectorau AB, Dysgu Seiliedig ar Waith a Dysgu Oedolion yn y Gymuned, byddai angen datblygu strwythur y rhaglen, partneriaethau, arweinyddiaeth, rolau, cyfrifoldebau, mewnbynnau a safonau’r rhaglen fel eu bod yn addas i athrawon dan hyfforddiant gwblhau eu cymwysterau AGA yn y sectorau hynny. City & Guilds
- Byddai cyfeiriad at arwahanrwydd darpariaeth ysgolion yr Eglwys sy’n cael eu cynnal yng Nghymru a’r disgwyliad ar gyfer partneriaethau achrededig rhwng ysgolion Catholig a SAU yn ddefnyddiol. Gwasanaeth Addysg yr Eglwys Gatholig
- Mae’r ymadrodd ‘wrth nodi ysgolion partneriaeth arweiniol, dylai’r SAU ystyried ysgolion effeithiol yn unig sy’n cael eu cydnabod o fewn eu rhanbarthau am ddarpariaeth o ansawdd uchel’ yn awgrymu mai dim ond ysgolion sydd wedi’u categoreiddio yn ysgolion ‘gwyrdd’ sy’n berthnasol yn y cyswllt hwn, a bydd hynny’n lleihau’r lleoliadau ysgol sydd ar gael. Rhodri Thomas

## Cwestiwn 6 – Ydych chi'n cytuno â'r safonau gofynnol ar gyfer derbyn a dewis athrawon dan hyfforddiant yng Nghymru?

| | |
|---|---|
| Cytuno | 67% |
| Anghytuno | 15% |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 17% |
| Nifer yr ymatebion | 52 |

Roedd dwy ran o dair o'r holl ymatebwyr yn cytuno â'r safonau gofynnol ar gyfer athrawon dan hyfforddiant. Cyflwynwyd awgrymiadau ar gyfer meysydd i'w gwella.

- Mae NAHT Cymru yn credu bod angen cynnwys arweinydd ysgol / mentor uwch athro presennol ar y panel cyfweld ar gyfer darpar fyfyrwyr AGA. Er enghraifft, byddai'n synhwyrol sicrhau bod disgwyl i ysgolion arweiniol gymryd rhan yn y broses yn uniongyrchol. Mae'n rhaid i'r 'priodweddau personol a deallusol priodol i fod yn ymarferwyr rhagorol' a nodir yn y gofynion derbyn sylfaenol gynnwys elfen o werthuso deallusrwydd emosiynol yr ymgeisydd. Y rheswm am hyn yw bod y maes niwrowyddoniaeth wedi dangos cysylltiad clir rhwng yr ymddiriedaeth sydd ei hangen ar gyfer perthynas rhwng athro a dysgwr a chyfradd cynnydd y plentyn / person ifanc. NAHT Cymru
- Rydym yn cefnogi'r meini prawf mynediad ar gyfer AGA yn gyffredinol. Fodd bynnag, os oes unrhyw staff cymorth presennol eisiau gwneud cais i fod yn athro, rydym yn credu y dylent dderbyn cymorth i ennill unrhyw gymwysterau sydd eu hangen i fodloni'r gofynion mynediad. Cymdeithas Athrawon a Darlithwyr Cymru
- Er ein bod yn cytuno â chyflwyno safon ofynnol os yw'r cyfryw feini prawf am gael eu cyflwyno ar gyfer AGA athrawon dan hyfforddiant yn y sectorau AB, Dysgu Seiliedig ar Waith a Dysgu Oedolion yn y Gymuned, rydym yn credu y byddai problemau ychwanegol a gwahanol yn codi. Er enghraifft, mewn llawer o achosion, mae gan athrawon dan hyfforddiant yn y sectorau hyn arbenigedd, sgiliau a gwybodaeth lefel uwch mewn crefftau neu feysydd galwedigaethol eraill, e.e. Adeiladu, Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Llythrennedd Digidol, Gwallt a Harddwch. Er mwyn eu croesawu i'r proffesiwn a datgloi eu sgiliau a'u gwybodaeth, byddai angen cydnabod eu harbenigedd ac efallai dangos sensitifrwydd i'w llwyddiannau academaidd cyn dechrau'r cwrs AGA. City & Guilds
- Nid yw'r gofyniad bod yr ymgeisydd yn gallu darllen yn effeithiol a chyfathrebu'n glir ac yn gywir ar lafar ac yn ysgrifenedig yn y Gymraeg a/neu'r Saesneg yn cydnabod bod unigolyn yn gallu cwblhau ei hyfforddiant AGA trwy gyfrwng y Gymraeg ac yna mynd ymlaen i addysgu mewn ysgol Saesneg. CCAUC

Roedd y rhai a ddywedodd nad oeddent yn cytuno nac yn anghytuno â'r cynnig yn tueddu i gytuno â'r cysyniad o feini prawf sylfaenol, ond eu bod am weld rhai diwygiadau iddynt. Awgrymwyd y gellid cynnwys profiad a pherfformiad blaenorol a ffitrwydd meddygol. Hefyd, roedd angen i athrawon dan hyfforddiant wneud eu pwnc yn berthnasol i leoliadau ymarferol.

Cyfeiriodd sawl ymatebydd at y gofyniad ar gyfer TGAU gradd B mewn Saesneg/Cymraeg a Mathemateg. Roedd nifer cyfartal o'r ymatebwyr hyn yn cefnogi'r gofyniad neu'n meddwl ei fod yn rhy uchel. Nid oedd grŵp bach arall yn cefnogi nac yn gwrthwynebu'r gofyniad, ond

nododd y byddai'n arwain at effeithiau niweidiol a bod angen ei fonitro. Gofynnwyd nifer o gwestiynau am y mater hwn hefyd, gyda rhai'n gofyn am ragor o eglurhad.

- Rwy'n cefnogi'n llawn y disgwyliadau uwch a gyflwynodd Llywodraeth Cymru ychydig flynyddoedd yn ôl, sef nodi bod TGAU Gradd B mewn Saesneg/Cymraeg a Mathemateg yn ofyniad sylfaenol i gael mynediad i'r proffesiwn. Ni ddylid cymharu'r sefyllfa â Lloegr, sy'n caniatáu safon mynediad is. Gary Brace
- Rydym yn cytuno â'r safonau mewn egwyddor, ond yn nodi bod y gofyniad i ddarpar athrawon fod â TGAU Gradd B mewn Saesneg a Mathemateg yn golygu bod darpar athrawon da yn cael eu colli i rannau eraill o'r DU. Prifysgol De Cymru
- Mae unigolyn yn ennill y cymhwyster hwn nifer o flynyddoedd cyn dod yn athro, ac nid yw'r ffaith ei fod yn cael gradd B yn hytrach na gradd C yn ei wneud yn athro gwell o reidrwydd. NUT Cymru
- Mae'r Cyngor wedi derbyn tystiolaeth anecdotaidd bod y gofynion mynediad sylfaenol (TGAU gradd B neu gymhwyster cyfwerth mewn Saesneg a/neu Gymraeg a Mathemateg) yn effeithio ar recriwtio myfyrwyr i raglenni, o ystyried bod y gofynion yn wahanol yn Lloegr. Mae'r Cyngor yn gofyn i Lywodraeth Cymru barhau i adolygu'r gofyniad mynediad hwn. CGA
- Mae'r meini prawf yn cynnwys cyfeiriad at fathemateg heb amlinellu'n glir beth mae hyn yn ei olygu i fyfyrwyr a fydd yn ymgymryd â gradd – mae angen rhagor o eglurdeb yn y cyswllt hwn (Mathemateg TGAU / Rhifedd TGAU / unrhyw un o'r ddau gymhwyster). Hefyd, mae angen egluro'r cymwysterau Saesneg cyfwerth â rhif. Mae'r newidiadau diweddar sy'n dileu TGAU gwyddoniaeth gradd unigol yn rhwystr arall i ddarpar fyfyrwyr, ac rwy'n dadlau nad oes angen hyn ar gyfer y Cyfnod Sylfaen. Rhodri Thomas

Roedd cyfeiriadau eraill at y gofyniad iaith TGAU mewn perthynas â'r iaith Gymraeg. Nodwyd bod elfen o wahaniaeth neu ddiffyg eglurdeb ar gyfer darpar fyfyrwyr AGA sy'n siarad Cymraeg fel iaith gyntaf.

- Byddai'n ddymunol gweld LLC yn ymgynghori'n bellach ar y disgwyliadau o safbwynt gallu yn yr Iaith Gymraeg [gan unigolion sydd yn cyrraedd graddfa B mewn Saesneg a Mathemateg yn hytrach na B mewn Cymraeg a Mathemateg] o ystyried blaenoriaethau LLC i gynyddu nifer siaradwyr Cymraeg a'r nifer sy'n derbyn addysg ddwyieithog mewn ysgolion a cholegau. Richard Parry Jones
- Nid yw'r gofyniad bod ymgeisydd yn gallu darllen yn effeithiol a chyfathrebu'n glir ac yn gywir ar lafar ac yn ysgrifenedig yn y Saesneg a/neu'r Gymraeg yn cydnabod y ffaith y gallai rhywun gwblhau ei hyfforddiant AGA yn y Gymraeg ac yna mynd ymlaen i addysgu mewn ysgol Saesneg. Gallai fod yn well newid hyn i '… ar lafar ac yn ysgrifenedig yn y Saesneg, a hefyd yn y Gymraeg os yw'r myfyriwr yn dymuno addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg.' CCAUC
- Rydym yn croesawu'r penderfyniad i barhau â'r gofyniad ar gyfer TGAU (Iaith) gradd B, ond yn cwestiynu a yw ennill gradd B mewn Saesneg a/neu'r Gymraeg yn briodol. Byddai'n well gennym fod myfyrwyr yn cael gradd B yn y ddwy iaith. (Fodd bynnag, mae angen ystyried a yw hyn yn berthnasol i'r rhai sy'n sefyll Cymraeg TGAU Iaith Gyntaf yn unig, neu i ba raddau y gallai fod yn berthnasol i Gymraeg Ail Iaith). Canolfan Addysg Athrawon Gogledd a Chanolbarth Cymru

Roedd y rhai a anghytunodd â'r cynnig yn tueddu i wneud oherwydd y gofyniad ar gyfer TGAU gradd B. Cododd y grŵp hwn nifer o bwyntiau ychwanegol.

- Mae'r NASUWT yn credu'n gryf y dylai'r gofynion mynediad gyfeirio at unigolion yn dod yn athrawon medrus a chymwys. Hefyd, mae'r NASUWT yn cwestiynu a yw'r gofynion mynediad wedi'u gwirio o safbwynt cydraddoldeb, yn benodol ond nid yn unig oherwydd gallu ffoaduriaid a cheiswyr lloches i gael mynediad i'r proffesiwn addysgu yng Nghymru. NASUWT Cymru
- Mae'n hollbwysig ychwanegu cymhwysedd digidol at y meini prawf hanfodol er mwyn adlewyrchu ei bwysigrwydd i addysg gyfoes. ERW

## Cwestiwn 7 – Ydych chi'n cytuno â'r egwyddor y dylai Cyngor y Gweithlu Addysg gael y pŵer i godi ffi (a fydd yn destun ymgynghoriad ar wahân) am ystyried ceisiadau, y bydd rhaid i SAU sy'n cymryd rhan yn y broses achredu ei thalu?

| | |
|---|---:|
| Cytuno | 42% |
| Anghytuno | 19% |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 38% |
| Nifer yr ymatebion | 52 |

Roedd llai na hanner yn cytuno y byddai codi ffi yn briodol. Roedd sawl un yn meddwl y byddai'r ffioedd yn helpu CGA i dalu'r costau ychwanegol sy'n deillio o'r cyfrifoldebau a'r dyletswyddau ychwanegol. Byddai angen cyllid ychwanegol i dalu am y gallu ychwanegol sydd ei angen ar CGA. Nid oedd yr ymatebwyr yn credu y dylid trosglwyddo'r costau ychwanegol hyn i'r rhai sy'n cofrestru.

- Mae gan City & Guilds broses achredu fewnol, gyda system reoleiddio allanol, sy'n gofyn am ymgynghori, datblygu a phrofi helaeth cyn bod cymwysterau yn cael eu cyflwyno. Mae darparwyr cymwysterau City & Guilds – fel colegau a darparwyr hyfforddiant – yn talu ffi i gael eu cymeradwyo i ddarparu'r cymwysterau hyn. City & Guilds

Roedd y rhai a ddywedodd nad oeddent yn cytuno nac yn anghytuno yn credu na ddylai ffioedd cofrestru athrawon dalu am gostau'r gofynion ychwanegol. Fodd bynnag, mae'n bosibl na fydd darparwyr AGA mor awyddus i gyflwyno cais ar gyfer achredu os oes angen talu ffi.

- Os oes angen talu ffi, dylai'r ffi gael ei thalu gan y bartneriaeth ac nid gan y SAU yn unig. Teach First Cymru
- Beth sy'n digwydd os yw ysgolion yn ymwneud â'r maes achredu hefyd – a fyddai disgwyl iddyn nhw dalu ffi i CGA hefyd? Consortiwm Canolbarth y De

Roedd un rhan o bump o'r ymatebwyr yn anghytuno â'r cynnig. Roedd llawer yn credu ei bod yn annheg bod SAU yn ysgwyddo'r gost gan fod y cynigion ar gyfer achredu yn cael eu cyflwyno gan bartneriaeth.

- Byddai angen sicrhau bod y bartneriaeth yn hytrach na'r SAU yn talu unrhyw ffi. Byddai'n rhaid sicrhau bod partneriaethau yn cael digon o rybudd ymlaen llaw o

lefelau'r ffi ac unrhyw newidiadau fel y gallant gyllidebu ar gyfer costau o'r fath. Prifysgol Glyndŵr Wrecsam

## Cwestiwn 8 – Sut allai'r polisi dan ystyriaeth gael ei ffurfio neu ei ddiwygio fel y byddai'n cael effeithiau cadarnhaol, neu fwy o effeithiau cadarnhaol, o ran:
## (a) cyfleoedd i unigolion ddefnyddio'r Gymraeg?
## (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?
## Cwestiwn 9: Sut allai'r polisi dan ystyriaeth gael ei ffurfio neu ei ddiwygio fel na fyddai'n cael effeithiau niweidiol, neu'n cael llai o effaith niweidiol o ran:
## (a) cyfleoedd i unigolion ddefnyddio'r Gymraeg?
## (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?

Roedd dau gwestiwn yn gofyn am safbwyntiau ar yr iaith Gymraeg. Dywedodd rhai ymatebwyr fod y cwestiynau'n rhy debyg, ac ysgrifennodd eraill 'gweler uchod' fel ateb i'r ail gwestiwn. Felly, bydd y dadansoddiad hwn yn cyfuno'r ddau gwestiwn. Derbyniwyd sylwadau naratif i'r cwestiynau hyn gan 44 o ymatebwyr. Yn ogystal, mae ymatebion perthnasol a chysylltiedig a dderbyniwyd i gwestiynau blaenorol wedi'u cynnwys yn yr adran hon.

Pwysleisiodd dros draean o'r rhai a ymatebodd i'r cwestiynau hyn bwysigrwydd trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal, gan nodi bod angen sicrhau bod AGA ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog, yn ogystal â thrwy gyfrwng y Saesneg. Byddai hyn yn rhoi cyfle i bobl ddefnyddio neu gryfhau eu sgiliau iaith Gymraeg os ydynt yn dymuno gwneud hynny, ble bynnag y maent yn byw. Er mwyn diwallu'r angen hwn, byddai'n rhaid i SAU fod yn ymwybodol o'r angen i recriwtio staff sy'n gallu datblygu sgiliau addysgu Cymraeg yn fedrus ym mhob cyfnod a phwnc.

- Byddai angen i leoliadau myfyrwyr gael eu hwyluso gan ysgolion cyfrwng Cymraeg o ansawdd uchel a'u cefnogi gan staff sy'n siarad Cymraeg mewn SAU. NAHT Cymru
- Mae angen amlwg am ddiffiniadau cliriach yma er mwyn sicrhau nad oes yna feini prawf anghyfartal yn eu lle fyddai'n anffafriol i Gymry Cymraeg. Mae angen i'r meini prawf newydd fynd i'r afael â'r ffaith bod rheidrwydd ar unigolion sy'n dymuno gweithio yn y sector Cymraeg ar hyn o bryd brofi lefel uchel o hyfedredd yn y Saesneg cyn cael eu derbyn ar gyrsiau AGA, lle nad oes rheidrwydd o gwbl ar unigolion sy'n bwriadu gweithio yn y sector Saesneg brofi unrhyw lefel o hyfedredd yn y Gymraeg. Canolfan Gwasanaethau Cymraeg Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant

Wrth gyfeirio at yr angen i sicrhau bod darpariaeth ar gael i'r rhai sy'n dymuno addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, awgrymodd sawl ymatebydd y dylai partneriaethau orfod dangos adeg cyflwyno eu cais i ba raddau y mae eu darpariaeth yn ddwyieithog, neu ddangos gallu'r bartneriaeth i gynnig darpariaeth ddwyieithog. Hefyd, dylai fod yn ofynnol i'r rhai sy'n

cyflwyno cais ddangos yn glir sut y byddant yn recriwtio myfyrwyr Cymraeg eu hiaith, canran y staff (SAU) sy'n siarad Cymraeg, a chyfran yr ysgolion cyfrwng Cymraeg/dwyieithog yn y bartneriaeth. Bydd trefniadau partneriaeth a chydweithio ynghyd â chynllunio gofalus yn hanfodol i fodloni'r gofynion hyn. Credwyd hefyd bod hyn yn cyd-fynd ag argymhellion yr Athro Donaldson ar y cwricwlwm ysgol ac ar gyfer rhagor o gydweithio rhwng ysgolion cyfrwng Saesneg a chyfrwng Cymraeg er mwyn datblygu sgiliau Cymraeg. Awgrymwyd hefyd y gallai Comisiynydd y Gymraeg, Coleg Cenedlaethol Cymru a sefydliadau fel CYDAG gynorthwyo'r broses o helpu i sicrhau bod llwybrau iaith a'r lefelau iaith gofynnol yn cael eu nodi'n glir.

- Bydd yn bwysig i sefydliadau allu recriwtio, datblygu a chadw staff sy'n gallu cyflwyno rhaglenni AGA drwy gyfrwng y Gymraeg. Gallent rannu'r cyfrifoldeb hwn â'u hysgolion partner os yw hynny'n briodol. Gallai trefniadau dysgu o bell fod yn gyfle i ddarpariaeth AGA cyfrwng Cymraeg gael ei chyflwyno mewn ffordd hyblyg ac arloesol. Y Brifysgol Agored yng Nghymru
- Awgrymwn yn gryf fod angen i'r canolfannau achrededig newydd feddu ar gyswllt uniongyrchol cryf â darparwyr y Cynllun Sabothol er mwyn medru manteisio ar yr arbenigedd sydd wedi'i sefydlu yn hytrach na meithrin cyfundrefn arbenigol o'r newydd. Yn atodol i hyn, credwn y dylai canolfannau newydd ddarparu cyrsiau dwys i athrawon dan hyfforddiant sy'n sicrhau y gallant wneud cynnydd o fewn cyfnod rhesymol sy'n cyfateb i'r lefelau hyfedredd sydd eu hangen arnynt er mwyn cyflawni gofynion eu swydd. Canolfan Gwasanaethau Cymraeg Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant

Cyfeiriodd sawl ymatebydd at gysylltiad uniongyrchol ag uchelgais Llywodraeth Cymru ar gyfer miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Roedd sawl ymatebydd yn credu bod rôl athrawon ac AGA yn datblygu dinasyddion dwyieithog yn un o sbardunau allweddol yr uchelgais hon. Nodwyd bod y broses o sicrhau cyflenwad priodol o athrawon sy'n gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn dibynnu ar dargedau derbyn blynyddol AGA ynghyd â'r disgwyl i bartneriaethau ysgolion/SAU gefnogi'r gwaith o ddatblygu'r gweithlu drwy gyfrwng y Gymraeg. Nodwyd mai SAU ac ysgolion sy'n gyfrifol am gefnogi hyfforddeion AGA, hyd yn oed os ydynt yn siarad Saesneg yn bennaf.

- 1.5. Gan ystyried y pwyslais cryf y mae'r Llywodraeth yn ei roi ar bwysigrwydd y maes yma, a'r newidiadau mawr sydd ar y gweill yn y system draddodiadol Saesneg, pam nad oes cyfeiriad at yr ymrwymiadau hyn yn y meini prawf neu ddogfennaeth arall yr ymgynghoriad hwn? Dyna'r prif gwestiwn mae'n rhaid i'r Llywodraeth ei ateb. Cymdeithas yr Iaith Gymraeg
- Mae'n rhaid ystyried sut y bydd cynigion ar gyfer AGA a datblygu safonau proffesiynol yn cyfrannu at gyrraedd targed Llywodraeth Cymru o greu miliwn o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru erbyn 2050. Mae hyn yn cynnwys datblygu dull gweithredu cwbl ddwyieithog yn hytrach na dull gweithredu Saesneg neu Gymraeg. Mae'r sector AB yn cynnwys methodoleg addysgu ddwyieithog yng Nghymru ac mae yna alw cynyddol ar gyfer cyfleoedd dysgu dwyieithog. Bydd hyn yn cefnogi statws swyddogol yr iaith Gymraeg. ColegauCymru
- Yn benodol, wrth bennu canolfannau wedi eu hachredu i hyfforddi athrawon mae'n allweddol bod ystyriaethau yn ymwneud â'r Gymraeg yn ganolog i'r broses o'r cychwyn, ac nad yw hyn yn cael ei ystyried wedi i'r penderfyniadau gael eu gwneud. Coleg Cymraeg Cenedlaethol

- Gellid diwygio’r gofynion mynediad er mwyn recriwtio cyfran uwch o fyfyrwyr dwyieithog bob blwyddyn. Gallai hyn gynnwys trochi iaith yn ystod AGA ar gyfer myfyrwyr, a lleoliadau cefnogol i geisio “troi” canran benodol bob blwyddyn o blith y cohort. ERW

Hefyd, roedd rhai ymatebwyr yn cydnabod y byddai angen i’r gweithlu addysgu presennol a hyfforddiant iaith gymdeithasol ehangach gefnogi’r uchelgais hon. Cyfeiriwyd at gymhellion ariannol a chymorth iaith ychwanegol fel dulliau posibl o helpu pobl i hyfforddi trwy gyfrwng y Gymraeg.

- Efallai y bydd angen ystyried cynnig rhai cymhellion cadarnhaol i ddenu digon o ymgeiswyr i addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg. Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau Cymru
- Yn ychwanegol mae angen, yn gyfochrog, ehangu’r cyfleoedd sydd ar gael i athrawon sydd angen cryfhau a gloywi eu gafael ar y Gymraeg a darparu rhagor o adnoddau o du llywodraeth ganolog i’r pwrpas hwn. Richard Parry Jones
- Er mwyn cyrraedd amcanion Llywodraeth Cymru, mae’n gwbl angenrheidiol fod y systemau yn eu lle i sicrhau nid yn unig bod darpariaeth ar gael ar gyfer darpar-athrawon sy’n dymuno derbyn hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg ond bod yna ddarpariaeth ehangach hefyd i ddatblygu sgiliau iaith Cymraeg ymysg darpar-athrawon yn gyffredinol. Athro Emeritws Gareth Ffowc Roberts
- Hybu'r Cwricwlwm Cymreig yn gryf i bob hyfforddai mewn SAU ac ysgolion partneriaeth. A) Sicrhau bod hyfforddeion cyfrwng Cymraeg, sydd yn aml yn grŵp lleiafrifol yn ieithyddol mewn grwpiau blwyddyn neu bynciol, yn cyfarfod â’i gilydd yn ffurfiol ac yn anffurfiol er mwyn codi hyder; cynnig cymhelliant ariannol i hyfforddeion cyfrwng Cymru ddilyn cyrsiau gloywi iaith yn ystod eu cwrs hyfforddi. B) Sicrhau bod dogfennau hyfforddi a chyflwyniadau staff yn ddwyieithog. Yn sgil hynny, bydd angen sicrhau arian ychwanegol ar gyfer penodi cyfieithwyr i SAU. Eglwys Bresbyteraidd Cymru

Wrth gyfeirio’n benodol at y meini prawf, nodwyd y ffaith nad oes unrhyw gyfeiriad at yr iaith Gymraeg.

- Yn Atodiad 2 y 'Gofynion trosfwaol', meini prawf y mae’n rhaid i bob rhaglen astudio eu bodloni, does dim sôn am y Gymraeg. Mae hynny'n rhyfeddol, o ystyried yr anghenion o ran y gweithlu a thargedau'r Llywodraeth. Cymdeithas yr Iaith Gymraeg
- Yn yr un modd, er bod y ddogfennaeth yn cyfeirio’n helaeth at waith yr Athro Graham Donaldson, eto, nid oes sôn am ei argymhelliad i symud tuag at ddysgu’r Gymraeg fel un iaith er mwyn sicrhau dilyniant iaith rhwng pob sector addysg. Dyfodol i'r Iaith
- Gellid diwygio’r meini prawf achredu i gynnwys gofyniad i hyfforddeion cyfrwng Saesneg dderbyn hyfforddiant digonol i ddefnyddio’r Gymraeg yn achlysurol yn yr ystafell ddosbarth. Teach First Cymru
- Yma (a thrwy gydol y ddogfen) dylid diffinio ‘llythrennedd’ gan ei gwneud hi’n glir ei fod yn cyfeirio at ddwy iaith swyddogol Cymru. Mae angen sicrhau cytgord rhwng 4.2 a 4.3. Yn 4.2 mae cyfeiriad at bwysigrwydd cynnwys ystod o ysgolion (gan gynnwys amrywiaeth o ran eu maint), ac eto yn 4.3.3 mae sôn am gyfleusterau na fyddant ar gael mewn ysgolion bychain, gwledig. Mae rhai o’r ysgolion hyn yn cynnwys

cyfleoedd da iawn i ddarpar-athrawon o ran Addysgeg a'r Iaith Gymraeg, ac mae angen sicrhau bod lle iddyn nhw yn y cynlluniau. PCYDDS

- Mae angen egluro a yw achredu ar lefel rhaglen, yn hytrach nag ar lefel canolfan (fel sy'n briodol) yn golygu y bydd dwyieithrwydd yn ofyniad ar gyfer pob rhaglen, gan gynnwys rhaglenni a gefnogir gan ddarparwyr y tu allan i Gymru. Er ein bod yn cymryd yn ganiataol y dylai hyn ddigwydd, nid yw'n ymddangos bod y meini prawf yn mynnu bod hyn yn digwydd i raddau digonol, gan gydnabod nad oes unrhyw beth yn rhwystro darparwr o'r tu allan i Gymru rhag cyflwyno cynnig. Mae angen egluro sut y bydd y TEAB yn atebol am ddarpariaeth iaith Gymraeg; yn benodol, sut y bydd y TEAB yn sicrhau aelodaeth briodol, arbenigol, nid yn unig gan siaradwyr Cymraeg, ond hefyd gan y rhai sydd â digon o wybodaeth am ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg i allu cyfrannu'n llawn ac mewn ffordd strategol. Prifysgol De Cymru

## Cwestiwn 10 – Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych faterion perthnasol nad ydym wedi rhoi sylw penodol iddynt, defnyddiwch y blwch isod i roi gwybod i ni amdanynt.

Denodd y cwestiwn olaf hwn safbwyntiau amrywiol gan 45 o ymatebwyr. Mae rhai o'r sylwadau hyn wedi'u hychwanegu at naratif yr adrannau blaenorol lle bo hynny'n berthnasol. Mae unrhyw bwyntiau ychwanegol wedi'u trefnu'n themâu yma.

### Cynnwys rhaglenni astudio AGA

Nododd sawl ymatebydd fod yr angen am hyfforddiant ymarferol a phwrpasol o safon uchel yn ffactor pwysig. Hefyd, nodwyd pwysigrwydd hanfodol gwybodaeth gadarn am bynciau (yn enwedig ym maes gwyddoniaeth) a dulliau addysgu yn yr ystafell ddosbarth. Mae'n hanfodol sicrhau bod hyfforddiant yn briodol i'r cyfnod oedran sy'n cael ei ddewis gan athrawon dan hyfforddiant. Fodd bynnag, gofynnodd rhai ymatebwyr am eglurhad ynglŷn ag i ba raddau y mae disgwyl i hyfforddeion weithio ar draws ffiniau pwnc yn ystod AGA.

- Mae Cemeg a phynciau gwyddoniaeth eraill yn ymarferol eu natur, a dylai athrawon dan hyfforddiant gael eu paratoi'n ddigonol i addysgu gwyddoniaeth ymarferol a defnyddio technolegau cyfoes. Fodd bynnag, rydym yn pryderu am y disgwyliad ychwanegol i athrawon dan hyfforddiant weithio ar draws ffiniau pwnc gan fod rhaglenni AGA eisoes yn cwmpasu lefel sylweddol o gynnwys (adran 5.7.1). Y Gymdeithas Gemeg Frenhinol

Yn y cyswllt hwn, roedd un ymatebydd yn credu'n gryf bod angen rhoi'r pwyslais mwyaf ar sicrhau bod digon o bobl ar gael i arwain hyfforddiant. Mae yna brinder athrawon Ffiseg yng Nghymru, ac mae'r ffaith nad oes digon o unigolion yn hyfforddi i fod yn athrawon yn gwneud y sefyllfa'n waeth.

- Ni fydd unrhyw system achredu yn gwbl lwyddiannus os oes prinder hyfforddwyr athrawon rhagorol i ddarparu rhaglenni achrededig. Y Sefydliad Ffiseg

Nododd chwe ymatebydd y dylai rhaglenni AGA gyfeirio at a chydnabod pwysigrwydd yr amgylchedd awyr agored (gan gynnwys tiroedd ysgol), iechyd a llesiant.

- Mae'n dda gan CNC nodi bod tudalen 31 o'r adroddiad Dyfodol Llwyddiannus yn dweud y bydd disgwyl i ddinasyddion egwyddorol a gwybodus "ddangos eu hymrwymiad i sicrhau cynaliadwyedd y blaned". Yn y dyfodol, y cwricwlwm Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang (ADCDF) (neu beth bynnag sy'n ei ddisodli) fydd y prif gyfrwng ar gyfer ymsefydlu'r egwyddor hon er mwyn sicrhau canlyniadau mwy hirdymor ar gyfer plant a phobl ifanc. Bydd modd gwireddu'r manteision ychwanegol a nodir yng nghwestiwn 1 drwy ddefnyddio dulliau dysgu awyr agored. Bydd sicrhau bod rheoli adnoddau naturiol mewn ffordd gynaliadwy yn rhan o'r cwricwlwm yn helpu i gyflawni nodau llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a rhoi Deddf yr Amgylchedd ar waith. Hefyd, bydd yn helpu i ddatblygu gweithlu medrus yn y dyfodol (gan gynnwys swyddi gwyrdd) a llunwyr polisi gwybodaeth, gan arwain at amgylchedd gwydn sy'n cael ei reoli mewn ffordd gynaliadwy. Cyfoeth Naturiol Cymru
- Mae angen i bob ymarferydd fod yn fedrus a chael ei hyfforddi'n briodol i hwyluso'r broses ddysgu yn yr amgylchedd naturiol gan gynnwys sgiliau arolygon maes, sgiliau adnabod, rheoli grwpiau a dadansoddi manteision a risg. Hefyd, mae hyn yn cynnwys datblygu a defnyddio tiroedd ysgol e.e. plannu at ddibenion bioamrywiaeth, ardaloedd ystafell ddosbarth awyr agored, tyfu llysiau a chasglu dŵr ac ailgylchu. Cyfoeth Naturiol Cymru

Oherwydd Bil arfaethedig Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru), awgrymodd tri ymatebydd y dylai ymwybyddiaeth o Anghenion Dysgu Ychwanegol, dyslecsia/SpLD (Anawsterau Dysgu Penodol) ac ymwybyddiaeth o fyddardod fod yn rhan orfodol o AGA. Byddai lefel ymwybyddiaeth sylfaenol yn helpu i nodi dysgwyr yn gynnar a threfnu ymyraethau.

- Roedd yn dda gennym nodi ymateb Ysgrifennydd y Cabinet i gwestiwn mewn cyfarfod llawn ar 22 Medi: *"You will be aware that the principle behind the ALN Bill is that all teaching professions should have an understanding and an ability to respond to low-impact, high-incidence rates of additional learning needs, and that has to be incorporated into the initial teacher training of our teachers*". NDCS Cymru

Awgrymodd un ymatebydd y dylai un o elfennau'r cwrs nodi sut y dylai athrawon cymwys ymddwyn y tu allan i'r ysgol er mwyn sicrhau eu bod yn diogelu eu hunain fel gweithwyr proffesiynol. Maes arall a nodwyd gan NAHT Cymru oedd yr angen i ddefnyddio staff cymorth yn well wrth gydweithio, meithrin cysylltiadau proffesiynol a llywio eu gwaith drwy waith cynllunio effeithiol a dulliau rheoli yn yr ystafell ddosbarth.

Hefyd, gofynnwyd am ragor o arweiniad ynglŷn ag a fyddai partneriaeth yn gallu cynnig rhaglen israddedig bedair blynedd gyda chymhwyster lefel Meistr integredig yn ogystal â rhaglen dair blynedd. Hefyd, gofynnwyd a yw darpariaeth ôl-raddedig yn cynnwys elfen o hyblygrwydd.

- Byddai rhaglen sy'n seiliedig ar ddiploma ôl-raddedig dwy flynedd yn cynyddu'r tebygolrwydd o athrawon gyrfa gynnar yn ennill cymhwyster lefel Meistr drwy gwblhau traethawd hir seiliedig ar waith. Prifysgol Glyndŵr Wrecsam

**Rhoi’r broses achredu ar waith**

Yn ôl tri ymatebydd, mae’r amserlenni yn uchelgeisiol ac mae’n bosibl na fyddant yn caniatáu digon o amser i achredu, dilysu a marchnata rhaglenni newydd. Hefyd, byddai goblygiadau yn deillio o’r newidiadau arfaethedig i’r safonau SAC. Gofynnodd dau ymatebydd arall am ragor o wybodaeth am fformat a lefel y wybodaeth sydd ei hangen ar gyfer y dogfennau ‘bwriad i gynnig’ a ‘gwneud cynnig’, ynghyd â’r cymhellion a fydd yn cael eu cynnig.

- Ar nodyn ymarferol, mae’n bosibl bod y cynnig ar gyfer proses achredu bob 5 mlynedd yn rhesymol, ond gallai mesurau interim i ymdrin â digwyddiadau annisgwyl fod yn ddefnyddiol. Gellid eu dosbarthu yn ‘newidiadau mawr’ neu’n ‘newidiadau bach’. Enghraifft bosibl o newid bach yw colli pennaeth y rhaglen, a gellid adolygu hyn fel proses ddogfennol os oes modd dod o hyd i bennaeth addas arall. Mae’n bosibl y bydd angen ailedrych ar y broses yn dilyn newid mawr. Sheila Drayton

**Partneriaethau**

Derbyniwyd sawl sylw yn ymwneud â’r trefniadau partneriaeth arfaethedig. Nodwyd bod y trefniadau hyn yn hollbwysig i lwyddiant AGA, yn enwedig felly ymrwymiad yr ysgol ac arbenigedd ei harweinwyr a’i mentoriaid. Roedd un ymatebydd yn pryderu y gall cystadleuaeth ddiangen ddeillio o sefyllfa lle mae darparwyr gwahanol yn derbyn achrediad ar gyfer rhaglenni tebyg sy’n cystadlu yn erbyn ei gilydd.

Gofynnodd rhai ymatebwyr am allu ysgolion bach i fod yn ysgolion partner arweiniol. Heb gyfraniad ysgolion bach, mae’n bosibl na fydd myfyrwyr yn derbyn amrywiaeth lawn o brofiadau, gan gynnwys addysgu dosbarthiadau â grwpiau blwyddyn cymysg. Yn ogystal, nodwyd bod angen cynnal asesiad gofalus ar sail gwaith ymchwil helaeth o effaith lleoli nifer o fyfyrwyr yn yr un ysgol, yn enwedig mewn ysgolion bach. Awgrymwyd bod angen cyfyngu ar nifer y lleoliadau myfyrwyr ar gyfer pob cohort o ddysgwyr.

Gofynnwyd am ragor o eglurhad ynglŷn â pha ysgolion y gellid eu cynnwys yn y partneriaethau a rôl Estyn yn y broses. Hefyd, roedd llai o eglurdeb ynglŷn â rôl consortia addysg rhanbarthol yn y broses o ddatblygu a chyflwyno’r rhaglen.

- Nid ydym yn credu bod y metrigau presennol sy’n cael eu defnyddio gan y Consortia Rhanbarthol yng Nghymru ac sy’n canolbwyntio ar ganlyniadau yn unig yn ddigon eang na soffistigedig i sicrhau bod myfyrwyr yn cael eu gosod yn y lleoliadau priodol i ddatblygu fel athrawon rhagorol. NAHT Cymru
- Mewn system sy’n gwella ei hun, mae’r consortia yn gweithio ar ran awdurdodau, gan gydweithio’n agos ag ysgolion i olrhain a monitro safonau, hwyluso cydweithio rhwng ysgolion, rhannu ymarfer effeithiol a sicrhau cefnogaeth ar gyfer ysgolion sy’n wynebu heriau. Maen nhw mewn sefyllfa ddelfrydol i helpu i ddiwygio AGA yn llwyddiannus. Consortiwm Canolbarth y De

**Rôl CGA**

Mynegodd sawl ymatebydd gefnogaeth i gynnwys CGA yn y broses achredu. Y farn gyffredinol oedd bod angen i'r corff rheoleiddio (CGA) fod yn gyfrifol hefyd am safonau proffesiynol y proffesiwn y mae'n ei reoleiddio. Awgrymodd eraill fod angen rhagor o gysylltiad rhwng ysgolion a'r sector AB o safbwynt safonau proffesiynol.

- Er ein bod yn cefnogi'r cynnig hwn yn gryf, bydd anghysondeb yn bodoli o hyd os oes angen i CGA achredu rhaglenni AGA tra bod y llywodraeth yn parhau i fod yn gyfrifol am y safonau SAC sy'n sylfaen i'r rhaglenni. Ysgol Gynradd y Tyllgoed
- Rydym yn credu ei bod yn fwy priodol i'r corff sy'n achredu AGA reoli dyraniad niferoedd (dyraniadau ar gyfer recriwtio i raglenni AGA). Fel sy'n wir am fyfyrwyr eraill, ar hyn o bryd rydym yn darparu cyllid y pen yn unig ar gyfer myfyrwyr AGA. Felly, mae ein cyllid ar gyfer y ddarpariaeth hon yn sylfaenol. Nid ydym yn credu ei bod yn briodol dweud bod gennym rôl bwysig yn y broses (gan awgrymu bod ein cyfraniad yn fwy nag ar gyfer unrhyw ddarpariaeth arall) gan fod y rhan fwyaf o'r cyllid ar gyfer y ddarpariaeth hon yn dod o ffioedd myfyrwyr. O ganlyniad i drosglwyddo cyfrifoldeb am achredu i CGA, rydym yn credu y dylai AGA gael ei thrin yn debyg i unrhyw bwnc addysg uwch arall sy'n cael ei ariannu gennym. Mae llawer o'r pynciau hyn yn destun goruchwyliaeth gan gorff proffesiynol, statudol neu reoleiddiol. CCAUC
- Mae ColegauCymru yn pryderu nad yw'r ymgynghoriad hwn yn ystyried y sector Addysg Bellach. Mae hyn yn berthnasol iawn o ystyried y cysylltiad posibl rhwng athrawon a darlithwyr AB, gan fod cylch gwaith Cyngor y Gweithlu Addysg (CGA) bellach yn berthnasol i'r ddau grŵp. Mae angen datblygu safonau proffesiynol priodol ar gyfer y proffesiwn addysgu a'r proffesiwn AB, ac ni ddylid eu cyfyngu i addysg *gychwynnol* i athrawon. ColegauCymru

**Cymru a Lloegr**

Dywedodd un ymatebydd fod angen sicrhau darpariaeth gyson ledled Cymru. Yn ôl ymatebydd arall, mae'n anochel y bydd y trefniadau achredu newydd yn arwain at wahaniaethau rhwng cyrsiau AGA a TAR yng Nghymru a Lloegr. O ganlyniad, gall hyn achosi problemau yn ymwneud â chydnabod cymwysterau a safonau gwahanol pan fydd athrawon yn symud o un awdurdodaeth i awdurdodaeth arall.

- Bydd yn ddefnyddiol sicrhau bod awdurdodau yng Nghymru a Lloegr yn darparu gwybodaeth am bob rhaglen fel bod ysgolion yn gallu deall pob cymhwyster. Hefyd, byddai'n ddefnyddiol egluro i ba raddau y gellir mynd i'r afael â'r 'diffyg' mewn addysg gychwynnol i athrawon ar gyfer myfyrwyr dan hyfforddiant sy'n cwblhau cwrs TAR y tu allan i Gymru ar gyfer rhaglenni a fydd, yn ddiofyn, 'heb eu hachredu', a statws yr athrawon hyn o gymharu â'r rhai sy'n cymhwyso drwy raglenni achrededig. Y Sefydliad Ffiseg

## 6. Camau nesaf

Mae is-ddeddfwriaeth berthnasol wrthi'n cael ei drafftio i sicrhau bod CGA yn derbyn cyfrifoldeb am swyddogaethau ychwanegol ym maes achredu AGA ac i sefydlu'r Pwyllgor Achredu Addysg Athrawon. Bydd yr is-ddeddfwriaeth yn amodol ar gymeradwyaeth y Cynulliad.

Yn ogystal â'r crynodeb hwn o ymatebion, mae llawer o'r sylwadau manwl a dderbyniwyd yn cael eu hystyried yn ofalus gan Grŵp Achredu AGA (Llywodraeth Cymru, yr Athro Furlong a CGA). Mae'n debyg y bydd hyn yn arwain at ragor o ganllawiau ac eglurhad ynghyd â nifer o newidiadau bach i'r meini prawf.

Ar hyn o bryd, mae'r meini prawf achredu yn destun Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb. Bydd y dadansoddiad systematig a thrylwyr hwn yn asesu'r meini prawf yn erbyn gwahaniaethu posibl ac yn hyrwyddo cydraddoldeb.

Byddwn yn parhau i ymgysylltu â phartneriaid. Bydd rhanddeiliaid yn derbyn adborth ar yr ymatebion i'r ymgynghoriad ar 13 Ionawr 2017. Hefyd, bydd hwn yn gyfle arall i randdeiliaid fynegi unrhyw bryderon neu ofyn cwestiynau.

# Atodiad: Rhestr o ymatebwyr

## Sefydliadau

| | |
|---|---|
| Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau Cymru | Tim Pratt |
| Cymdeithas Athrawon a Darlithwyr Cymru | Mary van den Heuvel |
| Gwasanaeth Addysg yr Eglwys Gatholig | Y Parchedig Dr Philip Manghan |
| Consortiwm Canolbarth y De | Mandy Esseen |
| Canolfan y Dechnoleg Amgen | Ann MacGarry |
| Chwarae Teg | Eira Jepson |
| City & Guilds | Helen Bready |
| Coleg Cymraeg Cenedlaethol | Dr Ioan Matthews |
| ColegauCymru | Dr Rachel Bowen |
| Ysgol Gynradd Cwmcarn | Helen Robbins |
| Cymdeithas yr Iaith Gymraeg | Toni Schiavone |
| Dyfodol i'r Iaith | Ruth Richards |
| Gwasanaeth Cyflawni Addysg | Mike Cameron a Dr Kevin Palmer |
| Cyngor y Gweithlu Addysg (CGA) | Hayden Llewellyn |
| Eglwys Bresbyteraidd Cymru | Vaughan Salisbury |
| ERW | Betsan O'Connor |
| Cadeirydd y Llywodraethwyr, Ysgol Gynradd y Tyllgoed | Jacquie Turnbull |
| Field Studies Council | Joy Blizzard |
| Cyngor Addysgu Cyffredinol Gogledd Iwerddon | Gerry Devlin |
| Llywodraethwyr Cymru | |
| CCAUC | Dr Cliona O'Neill |
| Y Sefydliad Ffiseg | Dr David Cunnah |
| NAHT Cymru | Rob Williams |
| NASUWT Cymru | Chris Keates |
| Cyfoeth Naturiol Cymru | Sue Williams |
| NDCS Cymru, y Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar | Debbie Thomas |
| Canolfan Addysg Athrawon Gogledd a Chanolbarth Cymru | Yr Athro Malcolm Thomas a'r Athro Enlli Thomas |
| NUT Cymru | Owen Hathway |

| | |
|---|---|
| PCYDDS Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant | Mererid Hopwood |
| Partneriaeth Dysgu yn y Gwir Fyd Cymru | Jane Richmond |
| Y Gymdeithas Gemeg Frenhinol | Nicole Morgan |
| Ysgol Gymunedol Sant Cenydd | Paul Sass |
| Prifysgol Abertawe | Yr Athro Iwan Davies |
| Teach First Cymru | Jennifer Owen Adams |
| Cyngor Addysgu Iwerddon | Tomás Ó Ruairc |
| Y Gymdeithas Addysg Wyddoniaeth | Marianne Cutler |
| Cyngor Addysgu Cyffredinol yr Alban | Kenneth Muir |
| Y Brifysgol Agored yng Nghymru | Michelle Matheron |
| UCAC Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru | Phil Higginson |
| UCU Undeb Prifysgolion a Cholegau | Lisa Edwards |
| Prifysgol De Cymru | Jamie James |
| Canolfan Gwasanaethau Cymraeg Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant | Dr Lowri Lloyd |
| Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant, Yr Athrofa | Dr Dylan Jones |
| USCET Cyngor Prifysgolion ac Ysgolion ar gyfer Achredu Athrawon, Cymru | James Noble-Rogers |
| Parciau Cenedlaethol Cymru<br>Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog<br>Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro<br>Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri | Dr Sunita Welch<br>Mr Graham Peake<br>Ms Naomi Jones |
| Prifysgol Glyndŵr Wrecsam | Dr Claire Taylor |
| Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol | Efa Gruffudd Jones |
| Ysgol Eirias | Hayley Blackwell |

## Unigolion

Athro Emeritws Gareth Ffowc Roberts

Gary Brace

J Thomas

Malcolm Pratten

Rhodri Thomas

Richard Ebley

Richard Parry Jones

Sheila Drayton

Steve Powell

## 5 Ymateb Anhysbys